

ECO'R WYDDFA

Rhif 113

EBRILL 1986

Pris 20c

NEWIDIADAU CYFFROUS YN YR ECO

A ninnau ar drothwy ein Cyfarfod Blynyddol pleser yw cyhoeddi fod Eco'r Wyddfa ar fin agor cwys newydd sbon danlli yn hanes y papurau bro Cymraeg. Yn ein hymgais barhaus i wella'n gwasanaeth i'n darllenwyr, yr eiliad y cawn sêl bendith y cyfarfod cyffredinol, y bore wedi'r Pasg byddwn yn arwyddo cytundeb i argraffu'r papur ar wasg soffistigedig Mr Rupert Murdoch yn Llundain.

Gan fanteisio ar y dulliau modern bydd y newyddion diweddaraf oll, megis canlyniadau darts nos Wener, ar garreg eich drws fore Sul. Gobeithir hefyd fedru cyhoeddi lluniau lliw erbyn rhifyn y carnifalau ym mis Gorffennaf. Hei lwc y cawn ni dywydd brafiach na'r llynedd!

Mor wyrthiol yw'r dechnoleg newydd fel y gall y golygyddion a'r holl ohebwyr pentref bellach deipio eu hadroddiadau ar beiriant arbennig a'u hanfon yn uniongyrchol i lawr llinell ffôn i'r pencadlys yn Fortress, neu Gaer Wopping, fel y'i gelwir. Er bod y wasg ym mherfeddion Lloegr fydd hynny nac yma nac acw.

Gyda thristwch y torrir cysylltiad â Gwasg Gwynedd, Caernarfon. Buont yn gyfeillion ffyddlon i Eco'r Wyddfa ers y rhifyn cyntaf ar wasg datws Nant Peris 'slawer dydd. Fe wnaethom ninnau ein pwt i'w helpu i gyflogi hogia lleol dros y blynyddoedd a mawr hyderwn y bydd i'r rheini ganfod gwaith arall buddiol yn sgîl y newid arfaethedig.

Ymfalchiwn yn ein tegwch ar Eco'r Wyddfa a dyletswydd arnom yw nodi nad yw pawb yn gytûn â'r datblygiad newydd. Meddai Trevor Pickerford, Bangor, is-ysgrifennydd TUC Gogledd Cymru: "Rhag eu c'wilydd nhw'n defnyddio gweithwyr scab. Byddwn yn ymuno â'r piced yn Wopping i ofalu na wnaiff yr un copi ddod allan drwy'r giât". Ond fel y defnyddiodd Mr Murdoch loriau TNT i ddosbarthu'r News of The World a'r Times, ein bwriad ni yw llogi fan gŵr busnes amlwg yn y fro i wneud y job. 'Does wiiw inni enwi perchennog y fan go iawn wrth gwrs - mae hynny'n amlwg.

Pasiwyd cynnig brys gan Gangen Adfer, Dinorwig yn eu cyfarfod nos Sul, Mawrth 23 yn condemnio'r

datblygiad ond fe'i croesawyd gan y Snowdonia National Park Association ar y sail fod y ffatrîs budur yn hagra'r fro ac yn dwyn afiechydon yn eu sgîl. "Gwell i'r cyfan fod yn Llundain gan fod y lle hwnnw'n uffern yn barod, a wnaiff colli un papur bro fawr o wahaniaeth."

Mae Trefnydd Erthyglau'r Eco yn croesawu'r datblygiad, gan nodi'n arbennig ein bod yn bwriadu defnyddio'r un wasg â'r Sun. Deëllir fod ganddo gynlluniau sbesial ar gyfer tudalen 3, yn enwedig pan ddechreu'r lluniau lliw.

Mae'r Trefnydd Hysbysebion yntau'n gweld cyfle i ddenu hysbysebion y cwmnïau mawr cyn belled â'u bod yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Os oes gennych chwi ddarllenwyr unrhyw farn ar y datblygiadau hyn neu'n wir unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Eco, DA CHI PEIDIWCH Â'N CYMRYD YN GANIATAOL - DEWCH I'N CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL YNG NGWAUNGYNFI, DEINIOLEN AR EBRILL 4 AM 7 O'R GLOCH. PEIDIWCH Â'N DIGALONNI DRWY ADAEL Y CYFAN I'R LLOND DWRN A DDAETH Y LLYNEDD.



Cynhelir CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

ECO'R WYDDFA

yn Neuadd Ysgol Gwaungynfi,
DEINIOLEN

Nos Wener, Ebrill 4 am 7.00
Croeso i bawb sydd â diddordeb
yn yr Eco

RHIF 37 - CADAIR GLANNAU MERSI



37 o gadeiriau. Dyna'r nifer y mae Selwyn Griffith, Crud yr Awel, Bethel wedi eu hennill yn ei yrfa fel bardd eisteddfodol. Diolch i'r drfeyn nad yw bob un ohonynt mor fawr â'i ddiweddaraf neu buasai'n rhaid iddo chwilio am warws yn rhywle i'w storio! Selwyn oedd prifardd Eisteddfod Glannau Merswy, Lerpwl yn ddiweddar (dyma hen Eisteddfod Lewis's a adferwyd tua chwe blynedd yn ôl). Ym 1978 yr enillodd ei gadair ddiwethaf.

Ysgrifennu casgliad o gerddi gwreiddiol oedd heb eu cyhoeddi nac wedi eu gwobrwyo mewn eistgeddfod o'r blaen oedd y dasg ar gyfer Glannau Merswy. Aeth

Selwyn â chadair Eisteddfod Glannau Merswy. Mae'r gadair sy wedi ei gwneud â choed o Llyn werth tua £250.

Selwyn ati i ail wampio pryddest a sgrifennodd ar gyfer Prifwyl y Rhyl ar y testun 'Glannau'. Roedd honno yn ymdrin â pherthynas Gogledd Cymru â Lerpwl. Fe'i trodd yn 14 o gerddi.

Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd Selwyn a Mrs Griffith yn symud o Fethel i fyw ym Mryn Eglwys, Penisarwaun. Hwn fydd y tro cyntaf erioed iddo fyw y tu allan i'w bentref enedigol. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt yn eu cartref newydd.

Y GENEDLAETHOL I DDYFFRYN NANTLLE

Mae Pwyllgorau Cylch yr Urdd yn nyffryn Nantlle ac Arfon yn dymuno derbyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ar dir Dyffryn Nantlle yn 1990.

Mae'r ddau bwyllgor cylch yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn neuadd Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, nos lau, Ebrill 17 am 7.30 gyda'r bwriad o estyn gwahoddiad swyddogol i'r Genedlaethol i'r Dyffryn yn 1990.

Mae bro'r Eco yn Arfon ac felly o fewn dalgylch yr Eisteddfod. Mae'n bwysig iawn felly bod cynrychiolwyr y gwahanol gymdeithasau ac ati, ynghyd â charedigion yr Urdd o fewn y fro hon yn mynychu'r cyfarfod cyhoeddus ym Mhenygroes.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 113
EBRILL 1986**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL:

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Anedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion Nant Peris.

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

MAI 1af

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
EBRILL 22ain
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

GWIRFODDOLWYR OS GWELWCH YN DDA

Annwyl Gyfaill,

*Fel y mae'n wybyddus efallai,
cynhelir Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn
Ogwen a'r Cylch ym Methesda
rhwng Mai 27-31 eleni. Mae'r
rhagolygon yn dda am 'Steddfod
lewyrchus arall.*

*Drwy gyfrwng y llythyr hwn,
hoffwn apelio am wirfoddolwyr i
weithredu fel stiwardiaid yn
ystod y pum niwrnod. Gellir cael
copi o'r ffurflen stiwardio
swyddogol gan y buaswn yn
falch iawn o anfon ffurflen at
gymaint o wirfoddolwyr a
phosibl. Cofier fod angen tua 850
o sesiynau stiwardio er mwyn i'r
Wyl redeg yn esmwyth ac, wrth
gwrs, y mwyaf y gwirfoddolwyr
yr ysgafnaf y bydd i bawb.*

*Felly, gefnogwyr yr Urdd a
diwylliant ein hieuenctid, a
fuasech chwi'n ystyried rhoi'ch
ysgwydd dan y baich am fore neu
brynhawn rhyw ddiwrnod?
Buaswn i a'm tebyg yn
werthfawrogi iawn o dderbyn
eich gwasanaeth.*

*Er mwyn Cymru, Cyd-ddyn a
Christ, beth amdani?*

*Ifor G. Ifans,
(Ysgrifennydd y Pwyllgor
Stiwardio,
Afon Goch,
Deiniolien.*

BWS I'R PWLL

Annwyl Olygydd,

*Menter y mae Cyngor Arfon
wedi ei threfnu ar y cyd gyda
chwmnïau bysus lleol (ac eithrio
Purple Motors) yw 'Bws i'r Pwll'.*

*Mae'r cynllun yn caniatáu i
blant brynu tocyn bws nôl a
blaen o unrhyw le yn Arfon am
35c, i un ai Bangor neu
Gaernarfon. Wedi dangos y
tocyn bws yn y Derbynlle ym
Mhwl Nofio Bangor neu
Ganolfan Hamdden Arfon, yna
gwerthir tocyn nofio i'r plentyn
am 15c.*

*Crewyd y cynllun yn arbennig
ar gyfer plant sy'n byw yn
ardaloedd gwledig Arfon, ac
mae'n cynnig eithaf gostyngiad
ar brisiau arferol y bws a'r*

adnoddau nofio.

*Cawsom gymorth Cyngor Sir
Gwynedd i sefydlu'r cynllun, a
fydd yn rhedeg yn ystod gwyliau
ysgol y Pasg, Gwanwyn, Haf a'r
Hydrfey.*

*Mae'n rhaid i'r plant sy'n
cymryd mantais o'r cynllun
ddefnyddio'r bws sy'n cyrraedd
Bangor neu Gaernarfon rhwng 9
a 9.30, ond gallent ddychwelyd ar
unrhyw fws yn ystod y dydd.*

*Yn gywir,
Walter Brame,
Rheolwr Hamdden,
Canolfan Hamdden Arfon,
Ffordd Bethel,
Caernarfon.*

YR ARGLWYDD CLEDWYN O BENRHOS

Annwyl Olygydd,

*Y mae HTV yn paratoi rhaglenni
ar fywyd yr Arglwydd Cledwyn o
Benrhos. Un o'r achlysuron mwyaf
pwysig oedd gorchfygu'r Fonesig
Megan Lloyd George yn etholiad
1951.*

*Tybed oes gan unrhyw un o'ch
darllenwyr lun o'r cyhoeddiad oddi
ar y balconi a'r Maes yn Llangefni
pan gyhoeddwyd y canlyniad ym
mis Hydref 1951.*

*Nid oes cofnod o gwbl gan y
papurau na'r ffynonellau swyddogol
a byddem yn ddiolchgar iawn petai
rhywun wedi tynnu llun ac yn fodlon
ei anfon ar fenthylg i ni.*

*Os gallwch ein helpu, cysylltwch â
mi ym Mangor.*

*Yn gywir,
Owen Griffiths,
Cynhyrchydd HTV,
1-2 Glanrafon,
Bangor,
Gwynedd LL57 1LH.*

Ffôn: Bangor 353971 neu 353948.

RHODDION -

YMDDIHEURIAD

*Dylasem fod wedi diolch i'r
canlynol am eu rhoddion yn y rhifyn
diwethaf:*

*£5.00: Teulu Llys Tudur, Llanberis;
Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd,
Llanberis ac M. Phillips, 67
Windermere Ave., Caerdydd.*

Gwell hwyr na hwyrach!

TAITH SGIO GWYNEDD IONAWR 1986

*Fis Ionawr aeth tua deg ar hugain
o blant yr ysgol hon, ynghyd â
phlant eraill o Ysgol Gyfun
Llangefni yn bennaf, a nifer llai o
Ysgol Bodedern ac Ysgol Dyffryn
Nantlle, ar daith sgio dan nawdd
Cymdeithas Sgio Ysgolion
Gwynedd i Les Coches yn
Ffrainc. Yr oedd tua cant o blant i
gyd.*

*Wedi iddynt ddychwelyd
cefais adroddiad ffafriol ar y
daith gan Mrs Wroe, yr athrawes
a aeth gyda hwynt.*

*Ychydig wythnosau wedyn
cefais gopi gan y Cyfarwyddwr
Addysg o lythyr a dderbyniodd
gan Mrs C. Bowden o Oldham,
sydd yn ôl pob golwg yn Ustus
Heddwch. Yr oedd hi a'i gŵr a'u
dau blentyn yn yr un bloc â'r
plant ysgol, ac y mae'n adrodd fel
yr oeddynt yn bur bryderus
ynghlŷn â hyn ar y dechrau. A
ymlaen i ddweud "However my
fears were completely
unfounded and I can honestly
say that I have never
encountered more polite and
well-mannered youngsters. The
organisation and supervision of
the group by the teachers was
excellent".*

*Y mae'n gorffen y llythyr trwy
ddweud "One hears so much
today concerning rowdy
teenagers beyond the control of
teachers and parents, that to
experience such friendliness and
politeness from the large group
of Welsh schoolchildren was a
pleasure".*

*Dangosais gopi o'r llythyr i
Lywodraethwyr yr Ysgol er
gwybodaeth ac yr oeddynt yn
gryf o'r farn y dylai'r cyhoedd
gael gwybod amdano. Y mae'n
braf meddwl fod grŵp o blant o'r
Ysgol hon yn haeddu rhan o leiaf
o'r clod am fod wedi ysgogi
llythyr o'r fath.*

*W.E. Thomas
Prifathro*

RHODDION

*Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion tuag at gostau
cynhyrchu'r Eco.*

*£5.00: Mr a Mrs G. Allen a Malcolm,
Tai Caradog, Deiniolien; Mr a Mrs E
Roberts, Dwyros, Waunfawr; Mrs M
Byrne, Llanfili; D ac M Thomas,
Bethel; Cyngor Cymuned Betws
Garmon; Di-enw, Llanberis.*

£3.50: E Rowlands, Wirral.

*£3.00: Mrs H.T. Owen, Plwmp,
Llandysul; Mr Meurig Owen,
Llundain; Mr P.W. Williams, Corby;
Mr R.E. Williams, Caergybi; Mrs J.
Williams, Borth y Gest; Mr Owen
Jones, Talwrn.*

*£2.00: Mr a Mrs R. Rowlands, 12
Pentre Helen, Deiniolien; Mr Owen
Hughes, Erw Fair, Deiniolien; Mr a
Mrs Harry Roberts, 2 Teras Plastirion,
Llanrug; Miss M. Griffith, Caerhun;
Mr R.W. Williams, Leicester.*

£1.50: Moi a Mair Parry, Canada.

*£1.00: Jacqueline (Wardle gynt),
Penygroes; Mrs Katie Williams, 8
Llys y Gwynt, Penisarwaun; Di-enw,
Llanberis; Di-enw, Llanberis; Ceri
Evans, Bethel.*

*Cyfraniad Cyngor Cymuned Y
Waunfawr tuag at gostau'r Eco oedd
£25 ac nid £150 fel a gyhoeddwyd y
mis diwethaf. Ymddiheurwn am y
camgymeriad.*

Bistro
Glandŵr

**43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

*Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)*




*Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.*



'ABWYD'

Tim o'r Waunfawr sy'n bennaf cyfrifol am ddod â'r ddrama gyfres gyffrous 'Abwyd' ar ein sgrin deledu. Dangoswyd y bennod gyntaf nos Fawrth, Mawrth 25. Eurig Wyn, un o leisiau cyfarwydd Radio Cymru, yw'r awdur a Norman Williams yw'r cynhyrchydd. Cynhyrchiad Ffilmiau Eryri yw'r gyfres a ffilmwyd hi yn ardal Trawsfynydd a Chaernarfon. Trawsnewidiwyd rhannau o hen ffatri Bernard Wardle (Pebli) yn swyddfa bapur newydd ac yn ganolfan y Weinyddiaeth Amaeth.

Delia'r ddrama bedair pennod â'r problemau sy'n gysylltiedig â gorsaf niwclear, ac yng ngoleuni digwyddiadau diweddar yn Nhrawsfynydd a Sellafield, y mae'n arbennig o amserol ac yn sicr o ennyn ymateb cryf o sawl cyfeiriad. Mae'n gyfres llawn



Golygfa o 'Abwyd'. Gwyn Parry yw'r gwyddonydd mewn penbleth.

digwydd a symud a byddwch yn barod am un o'r styntiau mwyaf uchelgeisiol a welwyd hyd yma ar deledu Cymraeg.

Y Parch. E Gwyndaf Evans B.A.

Teyrnged gan W. Elfyn Thomas
Pennaeth Ysgol Brynrefail, Llanrug

Ddydd Llun, Mawrth 10 bu farw un o gyn-athrawon mwyaf blaenllaw yr Ysgol sef yr 'Archdderwydd Gwyndaf'.

Fe fu yn athro Ysgrythur yn yr Ysgol o Fedi 1957 hyd Orffennaf 1978. Y mae nifer dda o'r athrawon presennol ag atgofion hapus amdano fel cyd-athro hynod radlon a chymwynasgar. Gwaneth argraff ddofn ar do ar ôl to o ddisgyblion, ac yr oedd nifer ohonynt yn ei angladd yn Llandudno bnawn Llun, Mawrth 17.

Gwnaeth gyfraniad cofiadwy i'r Ysgol mewn sawl cyfeiriad. Ef oedd yn trefnu'r Gwasanaethau Boreol ond yn bennaf yr hyn a gofir oedd ei lais cyfoethog yn canu'r emyn ac yn ysbrydoli eraill i ganu. Ef hefyd, a sefydlodd 'Seremoni'r Cadeirio' fel rhan o Eisteddfod yr Ysgol - traddodiad sydd yn parhau yn gryf yn nwylo Mr Alwym Fleming. Efallai mai'r cof pennaf amdano i lawer un yn yr ardal oedd cyfraniadau cofiadwy ei Gôr Cerdd Dant i Wasanaeth Nadolig yr Ysgol. Dyma yn sicr fyddai uchafbwynt y gwasanaeth blynyddol i lawer.



Yr oedd yn gymeriad pendant a chanddo ryw urddas a charisma â'i gwnâi yn ffigur sylweddol yn yr Ysgol i athrawon a disgyblion.

Estynnwn fel Ysgol ein cydymdeimlad dwysaf i'w wedd Mrs Evans a'r teulu.

CYSTADLEUAETH Y PENTREF TACLUSAF

Bydd pentrefi o bob rhan o Wynedd yn cystadlu'r haf yma yng Nghystadleuaeth Y Pentref Taclusaf, 1986. Mae i'r gystadleuaeth, a drefnir gan Gymdeithas Diogelu Cymru Wledig, ddosbarthiadau i bentrefi mawr a bach. Mae tair rownd a chynigir arian a gwobrau eraill.

Aiff enillydd Gwynedd ymlaen i gystadleuaeth y National Girobank 'Y Pentref Taclusaf yng Nghymru' gyda chyfle i ennill y teitl dros Gymru gyfan. Beirnedir y gystadleuaeth genedlaethol yn Awst gan Mr Meuric Rees a Mrs Rhiannon Howell-Bevan. Mae Mr Rees yn ffermwr adnabyddus o Dywyn ac yn

Gadeirydd Pwyllgor Cymru o'r Comisiwn Cefn Gwlad. Mae Mrs Bevan yn aelod o Fwrdd Croeso Cymru ac yn gweithio gyda Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghaerdydd.

Pwysleisia'r trefnwyr nad chwilio am y pentref harddaf y maend ond am y pentref taclusaf. Gofynnir i'r beirniaid nodi'n arbennig ymdrechion i gadw cymeriad naturiol gwledig y gymuned ac i gadw cynefinoedd naturiol i flodau gwyllt a bywyd gwyllt.

Am wybodaeth bellach cysyllter â: Simon Meade 0938 2525 (Swyddfa) neu 0938 84202 (Cartref).

CYSTADLEUAETH FARDDONIAETH 'YOUNG OBSERVER' CYMRAEG NEU SAESNEG

Bob blwyddyn mae'r 'Young Observer' adran darllenwyr ifanc y papur dydd Sul 'The Observer' yn cynnal cystadleuaeth barddoniaeth ar gyfer beirdd ifanc gyda noddwr gwahanol o flwyddyn i flwyddyn. Eleni Cymdeithas yr Awdurdodau Dŵr sydd yn noddri gan gynnig gwobr o £1,000 i'r ysgol sy'n cynhyrchu'r grŵp o gerddi gorau. Bydd hefyd wobrau unigol o £500, £300 a £200 i'r unigolion gorau mewn tair adran: hyd at 10 oed, 11-14 oed a 15-18 oed. Beirnedir y gystadleuaeth gan banel amlwg sy'n cynnwys y Bardd Frenhines, Ted Hughes ynghyd â Roald Dahl, Sue Townsend, y Bardd Blake Morrison a Janni Howker, enillydd Gwobr Yr 'Young Observer' am Llenyddiaeth

Arddgau 1985. Thema'r gystadleuaeth yw Dŵr a gellir anfon i mewn gerddi sy'n defnyddio'r pwnc mewn unrhyw ffordd. Mae manylion eisoes wedi eu hanfon i'r ysgolion.

Penderfynodd Awdurdod Dŵr Cymru gynnig gwobr arbennig o £300 am y gerdd orau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg a dylid anfon y cerddi i'r un cyfeiriad â'r rhai Saesneg, sef Young Observer Poetry Competition, 8 St Andrews Hill, Llundain EC4V 5JA i gyrraedd erbyn Mai 23ain, 1986.

Dewisodd Dŵr Cymru y Prifardd Gerallt Lloyd Owen i feirniadu'r cerddi Cymraeg a gobeithia y bydd yna ymateb teilwng i'r gystadleuaeth.

Cefn

Dalier heb laesu dwylo

Galwodd Cefn ar Gymry i fynnu cystall i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ag sydd gan y Saesneg yn Lloegr fel adduned Gŵyl Ddewi. Daeth yr alwad yng nghylchgrawn cyntaf Cefn, a anfonwyd ar Chwefror 28 i bob aelod. Bydd copïau i'w cael o'r swyddfa hefyd. Mae'r cylchgrawn deuddeg tudalen yn cynnwys copïau o gardiau Cefn i'w defnyddio mewn gwahanol amgylchiadau: yr un gwreiddiol i ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg, un i'w ddanfôn gyda biliau, ffurflenni a llythyrau swyddogol uniaith Saesneg pan y'u dychwelir i fynnu fersiwn Gymraeg, ac un i'w ddefnyddio i fynnu cael gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fewn mewn awdurdodau a chyrrff cyhoeddus.

Yn ogystal mae adroddiad ar chwe mis cyntaf y mudiad a braslun o rai o'r cwynion ddaeth i law. Ar ochr ysgafnach mae'r dudalen 'Chredwch chi byth'

gydag amryw o droeon trwstan byd y rhai sy'n ceisio byw drwy'r Gymraeg. Defnydd rhaglen deledu go fywiog?

Cerddi Tom Garregfawr

Mae gryn ddisgwyl am gyhoeddi llyfr o gerddi'r diweddar Tom H. Williams, gynt o'r Garreg Fawr, Waunfawr, a deiellir gan Gyhoeddiadau Mei y bydd y llyfr ar werth yn y siopau yn ystod y Pasg eleni. Mae ynddo delynegion, englynion, sawl cerdd am wahanol fannau yn y fro, emynau priodas, penillion i gyfarch ar wahanol achlysuron a phenillion er cof am rai o'i gyfeillion. Yn y llyfr hefyd ceir teyrnged i Tom Williams gan Emyr Jones ac R. Gwynn Davies a dau englyn er cof o waith Dylan Iorwerth. Eiga Lewis Roberts a Rol Williams fu'n gyfrifol am ddethol y cerddi a geir yn y llyfr.

URDD GOBAITH CYMRU

Bwriada cylchoedd Dyffryn Nantlle ac Arfon wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1990 i Ddyffryn Nantlle a chynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Ysgol Dyffryn Nantlle am 7.30 nos lau, Ebrill 17 i roi'r fenter ar y gweill. Dowch yn llu i gefnogi.

nant



LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Plastirion Terrace ddiolch o galon am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt tra oedd Mr Roberts yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Maent yn ddiolchgar iawn i'r teulu, i gymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion; hefyd i'r rhai a ddanfonodd Mrs Roberts i'r Ysbyty. Diolch arbennig i staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd am bob cymwynas a gofal a dderbyniodd Mr Roberts tra bu yno.

YR YSGOL FEITHRIN: Nos Fercher, Chwefror 19 cynhaliwyd disgo ar gyfer y plant yn yr Ysgol Gynradd dan nawdd yr Ysgol Feithrin. Yn ogystal, cynhaliwyd bore coffi er budd yr Ysgol Feithrin yn Festri Capel Mawr ar fore lau, Mawrth 6. Cafwyd eitemau o ganu ac adrodd gan y plant. Daeth nifer dda i'r bore coffi a'r disgo a diolchir i bawb am eu cefnogaeth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Nos Wener, Chwefror 28 cynhaliodd aelodau Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr eu Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. Cafwyd gwledd yma fel arfer. Y llywydd oedd Mr Eifion Roberts a'r wraig wadd oedd Mrs Jessie A. Hughes, Yoke House, Pwllheli. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mrs Hughes, ynghyd â rhai atgofion o'i phlentyndod yn yr ardal hon. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Hughes gan y Parch W.O. Roberts. Roedd yn amlwg i bawb fwynhau'r noson yn fawr.

GWASANAETH IEUENCTID: Roedd y gwasanaeth fore Sul, Mawrth 2 yn y Capel Mawr yng ngofal yr ieuencid. Cymerwyd rhan gan Menna Jones, Ruth Jones, Olwen Jones, Nia Lewis, Siwsan Morris, Jackie Pugh, Janet Roberts, Elen Wyn Roberts, Leni Gwenan Roberts, Manon Evans, Bethan Parry, Wendy Roberts, Dylan Owen, Robin Jones a Dafydd Jones. Hefyd fe gafwyd anerchiad gan y gweinidog y Parch John Morris.

CROESO'N ÔL: i Mr a Mrs Oswald Davies, Rhyd y Delyn ar ôl ei hymwelid ag Awstralia yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad â Mrs Eileen Davies, Llys Alaw ar farwolaeth ei chwaer yng Nghaernarfon. Cydymdeimlir hefyd â Mrs Lola Evans, Garnet ar farwolaeth ei mam yn Nhy'n Lôn, Llanwnda.

ADREF O'R YSBYTY: Rydym yn falch iawn o glywed fod nifer o drigolion yr ardal a fu'n yr ysbyty wedi dychwelyd

adref sef Emyr Roberts, Elan Wen, a dderbyniodd driniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl; Mrs Williams, 18 Hafan Elan a fu'n Ysbyty Gwynedd a Mrs E. Williams, Moelwyn, Hafan Elan a fu hefyd yn Ysbyty Gwynedd ac yna'n aros hefo'i merch, Mrs Beryl Hall ym Mangor. Croeso adref hefyd i Mrs E. Howells, Bryn Elert sydd wedi dychwelyd adref o Ysbyty'r Bwth, Caernarfon ac i Mr Harry Roberts, 2 Rhes Plastirion ac i Mr James Horman a fu'n Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs T. Griffith, Bryn Celyn ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith yn Cheltenham.

Â Miss Jane E. Jones, Gladwen, Ffordd yr Orsaf ar golli ei thad yn ddiweddar. Cydymdeimlir hefyd â Mrs Rowlands, Llys Forgan ar golli ei brawd yng nghyfraith.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn y Capel Mawr nos lau, Mawrth 6. Llywyddwyd y cyfarfod ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Mrs Gillian Morris. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Williams a Mrs Dorothy Jones.

CYFARFOD GWEDDI CHIORYDD Y BYD: Brynhawn Gwener, Mawrth 7 yng nghapel Hermon, Llanrug cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Chwiorydd y Byd. Trefnwyd y rhaglen gan ferched Awstralia eleni a'r thema oedd 'Dewiswch Fwyd'. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Gillian Morris. Y siaradwraig oedd Miss Megan Humphreys, Tan-y-coed a chafwyd anerchiad graenus a diddorol ganddi. Mrs Lovatt oedd yr organyddes. Cymerwyd rhan gan y canlynol - Mrs Jones Evans, Mrs Amy Smith, Mrs Margaret Jones, Mrs Inigo Jones, Mrs Bethanne Williams, Mrs Beryl Jones, Mrs Hefina Roberts, Mrs Jean Davies a Mrs Nansi Roberts. Diolchwyd i bawb gan Mrs Gillian Morris. Cafwyd cefnogaeth dda a chyfarfod bendithiol iawn.

PRIODAS RUDEM: Llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol ar ddathlu eu priodas ruddem ar Fawrth 23. Priodwyd Mr a Mrs Williams yn Eglwys Gwenfair, Rhoscolyn ger Caergybi.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Michael Lovatt, mab Mr a Mrs George Lovatt, Brwynog. Cafodd Michael ei daro'n wael tra roedd yn aros gyda'i wraig Rajni yng nghartref ei rieni.

APÊL SGANIWR: Yn ystod y misoedd diwethaf fe wnaeth aelodau gofalaeth Capel Mawr Llanrug a'r cylch ymdrech arbennig i godi arian tuag at brynu sganiwr corff cyfan i Ysbyty Gwynedd. Y mae'r arian a

gasglwyd fel a ganlyn.

Capel Mawr	£100.00
Pontrhythallt	£88.00
Tan-y-coed	£110.00
Ceunant	£5.00
Brynrefail	£51.00
Y Bobl Ifanc (Aw'r Ddistaw Noddedig)	£230.00
Cyfanswm	£630.00

Dymuna'r gweinidog, y Parch John Morris ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwng hwn.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Mawrth 11 cyfarfu'r gangen yn Ysgol Gynradd Llanrug a gwahoddwyd cangen Bethel i'r cyfarfod.

Sioe ffasiynau oedd yr arlwy wedi ei threfnu gan Mrs Jones o Antur Aelhaearn.

Gyda chymorth chwe merch ifanc cysylltiedig ag Antur Aelhaearn, cawsom gipolwg ar y gwaith deniadol a wneir yn Aelhaearn, gwaith a wneir gan y bobl leol yn fwyaf arbennig - y noson yma siwmperi a arddangoswyd - siwmperi o batrymau a lliwiau deniadol wedi eu gwau'n gywain.

Un arall â gwaith cywain i'w arddangos oedd Mrs Megan Williams, Trefor. Y mae Mrs Williams yn ysgrifennu cyfres ar 'Wnio' i'r 'Wawr', cylchgrawn Merched y Wawr.

Gweithio Cynllun Hyfforddi'r Ifanc - YTS, yng Nghanolfan Fron Deg Pwllheli y mae Mrs Williams. Gyda hi yr oedd pump o'i disgyblion a geneth fach, i arddangos gwaith y disgyblion a gwaith Mrs Williams ei hun, e.e., swimperi, siwtiau, sgert a siwmpwr, rhai o waith llaw a rhai wedi eu gwneud â pheiriannau, peth o'r gwaith gwau yn cael ei wneud yn y cartrefi gyda llawer o archebion yn dod o'r Alban.

Heblaw hyn dangoswyd gwaith ffelt, gwaith ffwr a chotwm, esiamplau o glytwaith, gorchudd cadair, gorchudd gwely, llenni, côt a sgert, - y cyfan yn gywain a deniadol.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Bethanne Williams. Croesawodd y cyfeillion o Aelhaearn ac o Bwllheli a diolch iddynt am noson mor ddifyr ac addysgiadol a'u llongyfarch ar eu llafur a'u llwyddiant.

Estynnodd Mrs Williams groeso hefyd i Ferched y Wawr, Bethel.

Ategwyd y croeso a'r diolch gan Mrs Gillian Morris a chwiorydd Bethel yn datgan eu diolch hwythau am y gwahoddiad i'r Sioe Ffasiynau ac am y mwynhad a gawsant.

Pwyllgor Merched y Wawr Llanrug oedd y gwestwragedd.

Dymunwyd yn dda i Mr Michael Lovatt, mab ysgrifenyddes y gangen, Mrs Nancy Lovatt. Cipiwyd Mr Lovatt i'r ysbyty yn ddiweddar. Dar deall ei fod yn gwella. Adferiad buan iddo.

Anfonwyd cofion a dymuniadau da hefyd i Mrs Evans, Lloc, a Mrs

Rowlands. Croesawyd Mrs Jane Williams i'n plith ar ôl gwaeledd.

Cwis a Chyfarfod Blynnyddol fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 8.

DIOLCH: Dymuna Mrs Buddug Jones gynt o 40 Stâd Glanffynnon ddiolch i drigolion Llanrug am eu caredigrwydd tra'r oedd yn byw yn eu plith am gyfnod o ddwy flynedd. Diolch arbennig i aelodau Capel Mawr a Merched y Wawr.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Lesley a Keith Morgan, 53 Glanffynnon ar enedigaeth eu mab cyntaf, Dylan Wyn, ar Chwefror 27. Merch Mr a Mrs H.H. Williams, Glanffynnon yw Lesley ac mae'r ddau wedi gwirioni ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf.

Dymuna Lesley a Keith ddiolch o galon i berthnasau a'r llu ffrindiau am yr anrhegion a'r dymuniadau da.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Mawrth 4 i gloi tymor y Gymdeithas daeth yr aelodau ynghyd i Westy'r Foelas i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Wedi gwledda, cyflwynodd y llywydd, Y Parch John Morris, y gŵr gwadd, sef Y Parch W. Bryn Williams, Bryndu, Môn. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddo. Talwyd diolch iddo gan Mr D. Glynn Owen a'r Parch W.O. Roberts.

Ar ran yr aelodau talwyd diolch i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn gan Mr Ifor Williams, Hafan Elan.

Penderfynwyd mynd ar daith hanesyddol yn ystod mis Mehefin i ardal Llanuwchllyn.

PLAID CYMRU: Cangen Llanrug a'r Cylch: Yng nghyfarfod mis Mawrth croesawodd Leslie Larsen y siaradwr gwadd Robin Williams, Rhoslan. Rhoddidd ddarlith ddiddorol ac addysgiadol iawn i ni.

Nan Humphreys ac Eryl Roberts oedd yn paratoi y te. Rhoddwyd y raffl gan Meirwen Lloyd a Nan Humphreys a'i henillodd. Anfonwyd cofio at amryw o aelodau oedd yn cwyno. Bydd y Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd ar Ebrill 9 yn cael ei hagor gan Maureen Rhys. Bydd yno stondinau bwyd, cacennau, planhigion, eliffant gwyn, poteli a digon o gemau i'r plant. Darperir paned o de hefyd.

Croesewir cyfraniadau i'r stondinau gan - Vera Williams, Meirwen Lloyd, Phyllis Ellis, Ann Evans, Margaret Parry, Eryl Roberts, Olwen Hughes, Leslie Larsen, Gwyndaf Jones, Helen Parry, Siân Jones, Nan Humphreys, Olwen Llywelyn.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y Ffair.

Ar gyfer cyfarfod mis Mai fe drefnir cwis rhwng aelodau Llanrug ac aelodau Waunfawr ym Mryn Eirian, Waunfawr ar Fai 7.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

PLAID CYMRU
Cangen Llanrug a'r Cylch
FFAIR WANWYN
yn Ysgol Gynradd Llanrug
Nos Fercher, Ebrill 9
am 7 o'r gloch
Stondinau Bwyd,
Cacennau, Planhigion,
Eliffant Gwyn, Poteli
Raffl. Gemau i'r Plant
Mynediad 25c. Plant
10c
i'w hagor gan
MAUREEN RHYS

D.LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG
FFÔN
C'FON 76699
Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
JOHN A ROBERTA
GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790
Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

LLANRUG (parhad)

YN YR YSBYTY: Mae Mrs Dora Jones, Hafa Elan, ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn dymuno gwellhad llwyr a buan iddi.

CANOLFAN HAFAN ELAN: Nos Fawrth, Chwefror 25 trefnwyd gwledd a chyngerdd i ddathlu pen-blwydd Mrs Nel Hughes, 24 Hafan Elan, yn bedwar ugain. Gwahoddwyd y cymdogion a chyfeillion fydd yn mynychu'r ganolfan a da oedd gweld cymaint wedi ymgynnull er y tywydd garw.

Yr oedd y bwyd wedi ei roddi gan y teulu a'r trefniadau eraill yng ngofal Mrs D. Jones, Y Warden a chyfeillion.

Wedi gwledd ardderchog cyflwynodd Mrs Jones barti merched W.I. Pontrug Caernarfon, a therfynwyd y noson gyda'r parti yn rhoddi cyngerdd ardderchog a derbyniodd gan y gynulleidfa.

Diolchodd Mr E. Owen, Rhif 9 ar ran y cymdogion a'i ffrindiau am y gwahoddiad a hefyd i'r parti a phawb arall oedd wedi bod yn gyfrifol am lwyddiant y noson.

Ar ran y teulu diolchodd Mrs Ann Hughes i Mrs Jones a'i chyfeillion am eu gwaith; i'r parti am eu cyfraniad ac i'r cymdogion a'r cyfeillion am eu cyfraniadau i wneud y noson yn llwyddiant.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nel Hughes, ddiolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am eu dymuniadau da, yr anrhegion a'r lluo o gardiau a dderbyniodd.

Dyma benillion a gyflwynwyd i Mrs Hughes ar y noson:

Cyfarchiad i Nel Hughes ar ei phen-blwydd:

Wel dyma'r diwrnod wedi dod Nel Hughes yn bedwar ugain Cymdogion oll yn canu'u clod O'i gweled hi fel - pioden.

Ac os y caiff rhyw fygyrn bach Ar cwmni bore coffi Yn siŵr i chwi pan fydd yn gant 'Does obaith iddi gloffi.

Tra'r plant yn edrych ar ei hôl Po arwaf fydd y tywydd Dymunwn iddi eto'n ôl Flynyddoedd o hapusrwydd.

E. Owen

Cyflwynwyd y canlynol yn ddi-enw ar y noson:


Mae'n ddiwrnod piwsig heddiw Nel Hughes cael pen ei blwydd Mae wedi cyrraedd wyth deg oed I mi mor dlws a bu erioed.

Mae'n hoff o ddod i'r bingo Yn ffyddlon bob nos Fawrth Ond druan Ses y 'caller' Os na chaiff lein neu 'house'.

Boed bendith ar y diwrnod I chwi flynyddoedd maith A ninnau gael eich cwmni Yn hapus ar y daith.

Capel

CYMDEITHAS TREFTADAETH Y CAPEL



Bwriedir cynnal cynhadledd ar y 3ydd o fis Mai 1986 i sefydlu cymdeithas dreftadaeth newydd a elwir CAPEL: Cymdeithas Treftadaeth y Capeli. Y rheswm dros sefydlu'r gymdeithas yw fod crefydd yng Nghymru heddiw mewn argyfwng sy'n bygwth traddodiad ac etifeddiaeth anghydfurfiol y genedl. Effaith diboblogi, yn rhannol, dirywiad yr iaith Gymraeg mewn mannau, natur bywyd yn mynd yn fwy-fwy seciwlar - dyna rai o'r achosion sy'n peri bod mwy na hanner capeli'r wlad ag aelodaeth o dan y pump ar hugain.

Daw'r argyfwng i'r golwg yn gliraf oll wrth ystyried capeli sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, gan fod llawer ohonynt â sôn am eu cau neu am eu dymchwil. Y mae cofnodion ysgrifenedig y capeli hyn a hynodion a phethau gwerthfawr eraill mewn enbydrwydd, ac mewn perygl o gael eu colli neu'u difetha. Bwriad CAPEL fydd 'astudio, cofnodi, a dehongli pensaernïaeth ac archifau anghydfurfiaeth yng Nghymru, a rhoi hwb er eu diogelu'.

Cododd y syniad o sefydlu Cymdeithas Treftadaeth y Capeli o drafodaethau a gafwyd mewn cynhadledd dros y Sul yng Ngregynog yn 1984: y diddordeb a enynnwyd gan yr arddangosfa Capel Cymru a gynhaliwyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol a oedd tu

ôl i'r cyfarfod yng Ngregynog. Ar ôl y cyfarfod hwnnw bu gweithgor yn cyfarfod yn gyson er mwyn rhoi ystyriaeth bwyllog i'r gymdeithas arfaethedig ac i drefnu diwrnod o gyfarfod pryd y byddai cynrychiolwyr i'r holl enwadau anghydfurfiol yng Nghymru yn dod ynghyd a rhai o blith cymdeithasau proffesiynol hefyd.

Cynhelir y Gynhadledd yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig y Ddinas, Windsor Place, Caerdydd, a Syr Goronwy Daniel yn Llywydd. Yn sesiwn y bore, fe geir annerchiadau gan yr Athro Anthony Jones, trefnydd yr arddangosfa ar Gapeli Cymru, a Dr Brynley Roberts, Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol: pwnc y darlithiau fydd y bygythiad i bensaernïaeth capeli ac i archifau anghydfurfiol.

GWAHODDIAD I GANU

Prif gyfrifoldeb y Pwyllgor Cerdd ar hyn o bryd yw ffurfio Côr yr Eisteddfod, ac eisoes anfonwyd gair at Gorau unigol o fewn y dalgylch yn gwahodd eu haelodau i ymuno â'r Côr fydd yn chwarae rhan bwysig yn llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog 1987.

Ond rhag ofn i unrhyw un gael ei gamarwain, bydd aelodaeth Côr yr Eisteddfod yn agored hefyd i gerddorion nad oes ganddynt gysylltiadau o gwbl â chorau'r dalgylch.

Gyda hyn mewn golwg, estynnir gwahoddiad agored i unrhyw un sy'n awyddus o ymaelodi â'r Côr ddod draw i Ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog, nos Lun, Ebrill 7fed am 7.30 o'r gloch.

Yn ystod y noson honno, fe ffurfir Pwyllgor Côr yr Eisteddfod, a bydd cyfle hefyd i ddewis y noson ymarfer fydd yn gyfleus i'r mwyafrif.

Eisoes etholwyd Mrs Elena Hughes o Bwllheli yn Gor-feistres, a phrin yw'r angen ei chyflwyno hi, gan iddi eisoes wneud ei marc fel un a fu'n weithgar ac yn amlwg iawn fel arweinydd amryw o gorau a phartion dros gyfnod o flynyddoedd, a hynny yn llwyddiannus dros ben. Hi yw arweinydd Côr Pwllheli a'r cylch, a hefyd Côr Ieuentid Godre'r Eifl.

"Rydym yn hynod ddyledus iddi am fod mor barod i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn, ac edrychwn ymlaen at ymarferiadau cyffrous, yn arwain yn eu tro at berfformiadau o'r safon uchaf ym mis Awst 1987," meddai llefarydd ar ran yr Eisteddfod.

Eisoes cadarnhawyd y gweithiau a berfformir gan y Côr, sef CARMINA BURANA (Carl Orff), y geiriau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan yr Athro Stephen J. Williams, a hefyd REQUIEM MASS (Mozart), geiriau yma eto wedi eu cyfieithu gan yr Athro Williams, a'r gwaith wedi ei addasu gan Mr Roland Wyn Jones.

"Dewch yn lluo i gyfarfod a chyd-ganu â'ch cyfeillion cerddorol ac ar yr un pryd i gyfarfod hwyrach â ffrindiau newydd," ychwanegodd.

"Mae angen croes-doriad o amrywiol leisiau ar gyfer y Côr, a chofio'r un pryd ein bod yn awyddus i Gôr Bro Madog fod yn un o'r goreuon a fu erioed!" meddai.

RHOWCH ATEB - SYLWEDYDD

Yn ein rhifyn diwethaf gwnaethom apêl ar i gyfrannwr sy'n galw'i hun yn 'Sylwedydd' ddatgelu ei enw a'i gyfeiriad i un o'r golygyddion.

Pwysleisiwn arno/arni mai ond ar ôl gwneud hynny y gallwn gyhoeddi ei sylwadau diddorol.

Anfonwch air os gwelwch yn dda.

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug


Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

**AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU**

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

**B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO**

HANES FY NHAITH O GYMRU I AWSTRALIA

Ar y 26ain o Hydref 1886 anfonodd John Parry y llythyr canlynol i'w fam a'r teulu ym Mrynhafod, Llanrug. Gyda'r llythyr yr oedd dyddiadur yn cofnodi hanes ei fordaith o Gymru i Awstralia yn ystod misoedd Ebrill, Mai a Mehefin union GAN MLYNEDD yn ôl. Ar ddalen flaen y dyddiadur mae'n siarsio'r teulu i'w gadw'n ddiogel nes daw'n ôl i Gymru. Yn anffodus, bu farw yn Awstralia, ond cafodd y dyddiadur ei gadw'n ofalus o fewn y teulu, ac y mae bellach ym meddiant Mr Vernon Hughes, Beech Bank, Llanberis, gor-ŵyr i chwaer John Parry. Ein diolch iddo am ganiatâd i rannu hanes John Parry gyda darllenwyr yr Eco. Bydd hanes gweddill y fordaith yn cael ei gynnwys yn rhifynnau Mai a Mehefin. Y mis hwn, felly, dyma gyhoeddi rhan gyntaf y daith.

O LANRUG I FÔR Y CANOLDIR Taith Mis Ebrill 1886

John Parry,
Brynhafof,
Llanrug,
Caernarvonshire,
North Wales, England.

Y mae y bywgraffiad hwn i gael ei gadw o fewn y teulu, ac i gael ei roddi i bob un i'w ddarllen ac i gymeryd gofal ohono. Hyderaf y caf y fraint o'i ddarllen eto yn fy ngwlad enedigol.

Queentown
Charters Towers
Queensland.

Fy Annwyl Fam, Brodyr a Chwirydd
oll,

Dymunaf gyflwyno yr ychydig
linellau hyn o hanes fy nhaith. Y mae
yn ddrwg gennyf na buaswn wedi
gallu ei gyrru yn gynt ond yn
herwydd prysurdeb ni chefais amser
i'w ail ysgrifenu. Dymunaf arnoch a
phwy bynag a'i darlennu basio heibio
y gwallau gan nad ydwyf ddim wedi
fy nghynysgaeddu a'r gallu cywrair
hwnnw i allu ysgrifenu heb wallau.

Bydded i bawb gymeryd gofal
ohono. Yr ydwyf yn hyderu y caf ei
ddarllen fy hunan eto yn fy ngwlad
enedigol os caniatâ Duw hyny.

Derbyniwch y cyfryw.

Ydwyf,

Eich anwyl fab a'ch brawd

John Parry

26.10.86

Dydd Iau, April 16th, 1886

Gadewais Llanrug am Liverpool gyda
y train 2.30 p.m. Cyrhaeddais L'pool
7.30 p.m. yr un diwrnod, yr oedd fy
mrawd Tom yn fy nghyfarfod yn
Lime St. Stn.

17th, Gwener

Aethom i Seaforth i ymweld a fy
mrawd Owen a'r teulu, ac arhosais
yno hyd ddydd Sadwrn.

19th, Sabboth

Cychwynais o'r Landing Stage,
Liverpool am 4.30 gan ffarwelio a fy
mrawd Owen a Nellie a daeth Tom
gyda mi i Gaer. Cychwynais o Gaer
gyda y train 11.55 pan y gadewais ar
ôl yma fy anwyl frawd Tom. Deuais o
hyd i T. Parry yma a Richard Roberts.
Cyrhaeddaisom Llundain erbyn
pedwar boreu Llun, yr oeddym yn
teimlo yn hynod o gysgedig a
blinedig, aethom ar unwaith i'r
Emigrants Depot.

Dydd Mercher

11.55 gadawsom yr Emigrants Depot
gyda steamer fechan o'r enw - i fyny
y Thames i Gravesend i gyfarfod y
"Duke of Argyll". Cychwynasom o
Gravesend am bump o'r gloch
prydnhawn yr un diwrnod, tywydd
yn ffafriol ond yr hin braidd yn oer.

Ebrill 22

Tywydd rhagorol, y môr fel gwydr.
Angorasom am tua pump awr yn yr
English Channel neithiwr. Codwyd yr
angor am ddau o'r gloch borau dydd
lau. Yr ydym wedi colli golwg ar dir ar
yr ochr chwith i ni, y mae tir Lloegr yn
ein canlyn. Y mae tir Ffrainc ar yr
ochr arall i ni, ond y mae yn rhy
aneglur i ni allu ei ganfod. Y mae
amryw o longau mawrion i'w gweld
ar wyneb y dyfroedd yma a thraw.

Un o'r pethau a'm synodd fwyaf
wrth weled ein llong oedd gweld y

dwylaw oll yn Foreigners, Blacks,
pymtheng a thri ugain mewn nifer. Yr
oeddwn yn teimlo nas gallwn wneud
dim a hwy, ond yn fuan diflanodd y
syniad hwnnw.

Cysgais neithiwr ar y dyfnder heb
ei amgyffred a chodais heddyw am
5.30. Yr oedd ein Breakfast yn barod
am wyth o'r gloch ac yr oedd yn rhaid
i mi ei gyrchu i'r deg oedd yn yr un
Mess a mi, gan mai fy enw i oedd y
cyntaf ar y rhestr. Y mae tri Cymro ar
y bwrdd hwn a'r gweddill yn Saeson
- bwyteig ofnadwy hefyd, y maent yn
bwyta fel bychod a mor denau a
gwartheg Pharaoh. Ein Breakfast
oedd Uwd, Triacl, Coffi, Bara ag
ymenyn. Y dwfr yw y peth gwaethaf
yma ond y mae yn rhaid ymfoddloni
arno am dipyn beth bynnag.
Cyferbyn a ni ar yr ochr ddeheuol y
mae y Beachy Head, gwaith chalk. Y
mae yr hin yn llawer poethach nag yr
oedd yn y boreu cyntaf, y mae hi yn
awr yn ddeuddeg o'r gloch ac yr
ydym wedi colli golwg ar dir. Y mae y
môr yn parhau i fod yn bur dawel ac
ambell i long i'w gweld yma a thraw.
Yr ydym erbyn hyn wedi newid ein
cyfeiriad yn hollol, yr oeddym yn
mynd i lawr o'r Gogledd ond yn awr
yn myned i'r Dwyrain. (?Gorllewin)

Y mae ar y llong 450 o emigrants a
tua 70 yn y saloon, tua chwech cant o
eneidiau ar y llong. 3.30 yr ydym yn
pasio Isle of Wight.

Dydd Iau 23rd April

Yn sal iawn o glefyd y môr.

24th Gwener. Yn sal iawn.

25 Sadwrn. Yn sal iawn.

26 Sabboth. Yn sal iawn.

27 Llun y Pasc. Ychydig yn well ond
dim yn agos yn dda, dim gallu edrych
ar fwyd. Heddyw gwelsom Shark
oddeutu 200 o latheni oddiwrth y
llong. Y mae yn ofnadwy yn y môr.
Aethom i mewn y Bay of Biscay tua
thri o'r gloch prydnhawn dydd
Gwener ac yr oedd yn hynod o dawel,
aethom allan ohono wyth o'r gloch
nos Sadwrn. Yr ydym yn parhau i fod
yngolwg tir Spain a Portugal ac yr
ydym yn mynd i mewn i Cape St.
Vincent ym mha le y cawsom
dywydd rough iawn. Yna yr oeddym
yn myned i mewn yr Atlantic Ocean
ac y mae y môr yn hynod o ferw. Yma
gwelsom ugeiniau o bysgod
mawrion yn dilyn y llong am lawer
iawn o filltiroedd. Porpoises i'm tyb i
tua 200 i 300 o bwysau. Y mae hi yn
glawio yn drwm a minnau yn sal.
Heddyw aethum at y Doctor ac fe
roddodd one ounce Salts i mi. Yr
oeddwn braidd a dweud wrtho am eu
cadw a chynigiais swllt i T. Parry am
fy mwrw i'r môr, ond fe a'm
gwrthododd. Y mae yma ugeiniau yn
sal o ba rai y pennaf ydwyf fi.
Breakfast heddyw yw Uwd a Syrup,

Tea a Bara wedi suro ac ymenyn a
Buttermilk. Ciniau - Rice heb na
halen na sugar ynddynt, Pork,
Potatoes, Pickles ond y mae yn rhaid
boddloni arnynt am ychydig.

Y mae braidd yn amhosibl sefyll ar
y deck gan y gwynt a'r gwlaw.

Dydd Mawrth, Apl. 27th

Codais heddyw am 5.30, yr ydym i
mewn yn y Straights of Gibraltar ers
tuag awr ac y mae rhes o fynyddoedd
o'n deutu.

6.30 yr ydym yn mynd i mewn i
Travalgar Bay lle yr ymladdodd
Nelson ei frwydr bythgofiadwy. Yr
ydym yn morio ar hyd ganol y Bay ac
felly tua saith milltir oddiwrth y lan. Y
mae y Forts Prydeinig i'w gweld yn
amlwg iawn ac y mae amryw Man o
Wars yn gwyllo ar hyd y Bay - a bu yn
rhaid i'n llong ninnau roddi yr
arwydd cyn y cawsom fynediad
trwodd. Y mae tir Affrica ar yr ochr
ddeheuol i ni, yn rhes o fynyddoedd
prydfert, a'r ochr arall mae tir Spaen
ac olion rhyfel ac amddiffynfeydd i'w
gweld yn amlwg iawn. Y mae llawer
o Lighthouses i'w gweld ar ochr
Spaen ond y mae Affrica braidd yn
aneglur gan y niwl.

8.30. Erbyn hyn yr ydym yn morio
yn y Môr Mawr Mediterranean Sea. Y
mae y môr yn rough iawn ac ugeiniau
yn sal ond fi lawer yn well. Yr oedd y
Cadben a'r Mates oll i fyny neithiwr
yn herwydd y storm fawr.

Yr oedd fy hyder yn llwyr yn yr hwn
y mae y gwynt a'r môr yn ufuddhau
iddo, hollol ddiofn.

Y mae amryw o longau masnachol
i'w gweld ar wyneb y dyfnder yma a
thraw.

Mercher 28th

Breakfast. Coffi, Bara a Jam ond ellais
i fwyta dim ond yfed. Y mae y gwlaw
yn dyfod i lawr yn gefnllif ac y maent
wedi gosod covers dros y llong i gyd.
Y mae y rhan fwyaf ohonom yn
methu aros i lawr y Cabin, gan fod
cymaint ohonom yno y mae yr Air
braidd yn fychan.

Byddwn yn codi yn fore iawn pob
dydd ac yn myned yn hwyr i gysgu.
Byddant yn chwarae ffidlau a cynn
yma braidd ar hyd y nos. Y mae yr hin
braidd yn boeth, eto ddim yn
ormodol felly. Yr ydym wedi myned o
olwg tir ers tua dwy awr ac y mae y
môr wedi llonyddu llawer iawn.

3.30. Yr ydym yn awr yn dyfod i
olwg rhes o fynyddoedd, pennau pa
rai sydd orchuddiedig gan eira. Y
mae rhai yn dweud mai Mynyddoedd
Switzerland ydynt ond nid wyf fi yn
meddwl fod hyn yn gywir yn ol y
map, achos y mae mynyddoedd
Switzerland gannoedd oddiwrth y
môr.

Yr ydym yn parhau i hwyllo ymlaen
yn y Môr Mawr. Tywydd rhagorol
heddyw yr awel yn chwythu o'r tir ac
y mae y sails oll i fyny. Y mae
mynyddoedd Affrica yn rhedeg ar
hyd glannau y môr am gannoedd
lawer o filltiroedd ac y mae y tywod
i'w ganfod yn wyn ar lethrau y
mynyddoedd.

Ciniau heddyw - Corn Beef, Rice,
Soup, Bread.

Blacks. Crew

Y mae yma dri ugain o honynt yn
amrywio o ddeunaw oed i 50 ac y
maent yn bur dda i'w gilydd, pa beth
bynnag a wna un ohonynt fe a'i
gwnant oll. Y dydd o'r blaen
digwyddodd i un o'r Emigrants tra yn
pasio darau un ohonynt yn hollol
ddamweiniol a diangc a wnaeth yr
oeddynt oll gyda eu gilydd amdano.
Er pan ydwyf ar y llong welais yr un
ohonynt yn bwyta dim ond rice yn
gymysgedig a rhyw fath o bowdwr
coch heb na chymorth llwy na
chylleth ond llaw noeth i wneud pob
peth. Y maent yn bwyta gyda eu
gilydd a rhywbeth tebyg i Hambwrdd
yn y canol a phob un a'i law yn y plat

yma. Y maent yn yfed dwfr fel
bychod. Byddant yn pobi rhyw fath oi
deisenau ar ddydd Sul, y maent
hwythau yn cadw dydd Sul, rhan
ohono.

Y maent yn bobl wasiaidd iawn, y
mae un dyn gwyn yn werth dwsin
ohonynt. Ni safant am foment o flaen
dyn gwyn ond amcanant gael
gwendid arno. Yr oedd y Doctor yn
dweud wrthym ddod fod hyny yn
rhan o'u crefydd hwy a'u bod oll i
ymladd pa un bynag fyddant yn iawn
a'i peidio, hyny yw os digwydd un
ohonynt ymrafaelu a rywun. Byddant
yn ymolchi ar ol pob pryd yn groes
iawn i ni sef cyn bwyta. Y mae hon yn
ddefod bwysig iawn ganddynt.

Byddaf yn edrych arnynt yn
gweddio pob hwyr. Y maent yn
gweddio a'u breichiau yn blethedig
gan eistedd ar eu sodlau, yna
ymgodant a gwnant y fath ystumiau
arnynt eu hunain. Byddant yn rhoddi
eu talcennau ar lawr yna edrychant i
fyny tua'r nef. Byddant am tua
hanner awr yn yr ystym hwnnw.

Y mae ganddynt ddanedd fel Ivori,
ardderchog ac y maent yn dra
charedig os peidiwch a gwneud dim
iddynt. Byddaf yn cael onions
ganddynt bob dydd, a cigar.

Dydd Iau

april 29th

Codais heddyw am 6.30 ac y mae y
môr fel gwydr. Yr ydym yn parhau i
fod yngolwg mynyddoedd Affrica ar
yr ochr ddeheuol i ni. Darfu i ni
dreulio ddod 280 miles.

Darfu i ni basio tref o'r enw Algeria
neithiwr ar lannau Affrica ac yr oedd
i'w gweld yn ardderchog iawn o'r
môr. Yr oeddym o fewn deuddeg
milltir iddi. Y mae hon yn dref
fasnachol iawn. Heddyw gwelsom
bedair o longau mawrion ar eu ffordd
i Loegr o'r gwledydd ellenig y
ddaeear a rhyw deimlad rhyfedd yn fy
meddianu. Gwled dim ond ambell i
long ar wyneb y dyfnder mawr yr
oedd fy meddwl yn rhedeg yn ôl i
deulu'r Dilyw, Noah.

2.30. Y mae hi braidd yn niwlog
ond y môr fel gwydr. Yr ydym yn awr
mewn golwg tref ar lethrau un o
fynyddoedd Affrica, y cwr pellaf i'r
mynydd ar ochr Malta.

Y mae y môr yn ymgodi yn awr a'r
llong yn rowlio. Y mae yr awyr yn
gymylog a mae pawb ar y llong yn
enjoyio eu hunain mewn neidio a
dawnsio. Y maent yn gwneud i mi
anghofio mai ar y môr yr ydwyf ond
yr ydwyf yn gweld Duw yn fwy
ardderchog yngwaith y greadigaeth
nag y gwelais ef erioed o'r blaen.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CAPEL BOSRA: Nos lau, Mawrth 2, am 6.30 p.m. cafwyd gwasanaeth Dydd Gweddî Byd-Eang y Chwiorydd. Yr Arweinydd oedd Miss Phyllis Ellis. Cafwyd anerchiad gan Miss Mair Foulkes a'r organydd oedd Mrs Nansi Jones. Cymerwyd rhan gan Mrs Percy Williams, Mrs Mary Davies, Mrs Eileen Thomas, Mrs Elisabeth Jones, Mrs Jennie Price Jones, Mrs Bessie Williams, Mrs Eirlys Jones, Mrs Pat Larsen a Mrs Ann Ifans. Cafwyd munud o ddistawrwydd er cof am Mrs Mary Green, un a fu'n ffyddlon i'r mudiad. Oherwydd y fflw ni allai Mrs Porter fod yn bresennol.

EGLWYS SANTES HELEN: Fore Gwener y Groglith bydd gwasanaeth am 10.30. Bore Sul y Pasg am 10.30 gweinyddir Cymun Bendigaid gan y Canon R.D. Roberts.

Cynhelir Ffestri'r Pasg yn y Neuadd ar Ebrill 9 am 7.00 p.m. Taer erfynnir am bresenoldeb teilwng.

Bydd Gwasanaeth Undebol am 2.00 p.m. Ebrill 13 pryd y gweinyddir Cymun gan y Canon R.D. Roberts.

YR YSGOL FEITHRIN: Cofiwch fod yr Ysgol Feithrin yn ailgychwyn ar Ebrill 8, bob bore Mawrth a lau yn Neuadd yr Eglwys am 10.00 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at gael cyd-gyfarfod unwaith eto ar ôl y gaeaf a gobeithiwn y cawn groesawu aelodau newydd atom. Cofiwch fod croeso i unrhyw blentyn o dan oedran dechrau'r ysgol i ymuno â ni.

YSGOL TAN-Y-COED: Pnawn lau, wedi cyfnod o bum wythnos o ymarfer dysgu yn nosbarth y Babanod, ffarwelwyd â Miss Enid Morgan, Myfyrwraig o'r Coleg Normal. Dymunwn pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

Dymuna'r staff a phlant yr ysgol bob hapusrwydd i Mr a Mrs Len Jones yn eu cartref newydd yn y Groeslon.

Bydd yr Ysgol yn ail-agor Ebrill 7 wedi gwyliau'r Pasg.

YR URDD: Cafwyd 'Bingo' ar ffurf cwis, 'Adnabod Cymru', Chwefror 27. Cyflwynwyd tystysgrifau Eisteddfod yr Urdd Cylch Arfon, i Lois ac Eleri am wneud 'Collage' a Llun. Daeth Lois yn ail hefo 'Collage' a thrydydd am wneud llun o dan 8 oed. Daeth Eleri yn drydydd am wneud 'Collage' o dan 10 oed. Canmolwyd y plant i gyd a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch.

Wedi noson ddifyr yng nghwmni Mr a Mrs Geraint Williams ychydig wythnosau'n ôl, yn sôn am Bahrein, cafwyd sgwrs ganddynt am Thailand, Mawrth 5. Dangoswyd nifer o luniau, dillad a mân bethau o'r wlad ddiddorol yma. Diolchwyd iddynt gan Jonathan Richards.

Llogwyd bws i gludo'r plant i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon, nos Fercher, Mawrth 12. Bu'r bechgyn yn chwarae pêl-droed gyda Mr Mowll a Dafydd Evans. Aeth y genod a'r plant lleiaf a'r mamau i nofio. Wedi awr o bleser

llwyr daethom adref tua 7.30 p.m. Carwn ddiolch yn arbennig i Carolyn a Mary am wneud y trefniadau. Diolch genod!

Mawrth 19, yn Neuadd yr Eglwys, cafwyd Disgo'r Urdd, gydag Eric Jones. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan y rhieni a chafodd pob aelod ŵy Pasg i fynd adref. Diolch i bawb a wnaeth y noson yn un llwyddiannus - noson i gloi gweithgareddau'r Urdd am y tymor hwn.

'Rwy'n sicr y cytuna pawb fod eleni wedi bod yn dymor llwyddiannus inni fel Adran Bentref. Dymunwn ddiolch i'r plant am eu ffyddlondeb ac i'r oedolion a ddangosodd ddiddordeb yn y Mudiad. Ein diolch pennaf i'r Ysgrifennydd, Mrs Carolyn Roberts a'r Trysorydd, Mrs Mary Eliot. Gobeithir cael ticedi i Basiant y Plant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Ogwen ym mis Mai.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Rees Thomas, Bod Awen, a'r teulu oll, o golli chwaer i Mrs Thomas, ym Mae Colwyn.

Chwefror 27, yn dawel yn ei chartref Glan Alaw, yn 80 mlwydd oed, bu farw Mrs Mary Green, annwyl briod y diweddar Edward Green a chwaer Mrs Jennie Williams, a Mr Orwig Pritchard. Bu'r angladd ddydd Llun, Mawrth 3 gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Ysgoldy am 1.30 p.m. ac yn dilyn ym mynwent Santes Helen. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â Miss Mair Foulkes, hithau wedi colli ei chefnider o Queensferry.

GWELLHAD: Bu'n fis arall o salwch gyda nifer fawr yn dioddef o'r fflw. Gobeithio fod pawb ohonoch yn gwella a bod dyfodiad y gwanwyn yn codi tipyn ar eich calon wedi gaeaf mor galed. Gobeithio fod Mrs Rees Thomas, Mrs Roberts, Pen Gaer, Mr Jones, Cae Corniog, Mrs Megan Jones, Perthi ac Amranwen Lynch yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty.

Dymunwn adferiad buan i Mrs Annie Williams, Meillionydd hefyd.

TARO TANT: Nos lau, Chwefror 27 aeth 35 o'r pentrefwyr i Ganolfan Glan Conwy i flasgu rhaglen deledu Taro Tant. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn gwrando ar Rosalind a Myrddin, Plethyn a Hogia'r Wyddfa. Diolch i Arwel am ofalu amdanom a sicrhau lle i ni yn y seddau blaen fel ein bod yn gweld a chlywed pob dim - (hyd yn oed pa liw oedd ei dafod!).

FFUG-EISTEDDFOD: Aeth "y criw gwirion" i Westy Gwynedd i ddathlu'r *Hatrick*. Cawsom ein diddori drwy'r nos gan Anti Mary, - noson o hwyl a chwerthin. Diolch i Phyllis ac Elisabeth am wneud y trefniadau.

LLONGYFARCHIADAU: Balch ydym o longyfarch Hefina Jones, Tai Arthur ar ei llwyddiant gyda'r piano - Graddfa 2. Ardderchog Hefina.



Llongyfarchiadau i Dyfed ar gael ei ddewis i actio mewn perfformiad cerddorol o 'Oliver' yn Theatr Gwynedd, yn ystod mis Awst. Bydd yn dechrau ymarfer yn fuan wedi gwyliau'r Pasg. Pob hwyl iti Dyfed.

DIOLCH: Dymuna Mrs M. Rees Thomas, Bod Awen, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a'i ffrindiau oll am y llu cardiau a phob arwydd o garedigrwydd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna ddiolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl colli ei chwaer.

CROESO ADREF: Roeddem yn falch o weld Dylan Williams, Careb, adref am seibiant o'r fyddin yn yr Almaen.

CLWB CANT: Nos lau, Mawrth 27 am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys cynhaliwyd noson o 'Weithgareddau'r Pasg' - addurno ŵy, gwneud Gardd Basg, addurno het Basg a gwneud teisen Simnel.

Ebrill 25 bydd Ffair Wanwyn yn neuadd yr Eglwys.

DRAENOG



Ydach chi isio gwaith diddorol ac anghyffredin? Dyma i chi un o'r swyddi oedd yn cael eu hysbysebu mewn taflen newyddion gan **JOB CENTRE** ac ar gael yn swyddfeydd post yr ardal yn ystod mis Mawrth:

'Gofalwr dros dro yn Llanberis.

I **dylwyth** y cyhoedd o gwmpas yr amgueddfa ac ateb cwestiynau ac ymholiadau am y **diwidiant** llechi...

Oni fyddai'n rheitiach i'r Jobcentre ofyn am rywun i gael ei gyflogi i ffurfio hysbysebion Cymraeg cywir iddynt?

2 ast gŵn defaid. Yn barod i'w casglu. 3 mis oed. Am ddim i gartref da. - Arfon Huws, Llanberis 872015.



IWAN GLYN A'I HEN DAID, TOM PARRY

Mawrth 29 dathlodd Mr Tom Parry, 4-5 Stryd Lombard, Porthmadog, ei ben-blwydd yn 100 oed. Mae'n daid i Mr Dic Parry, Tawelfa, a hen daid i Nia Ffion, Gwenllian ac Iwan. Mae'n dal i gael uwd am 8.30 bob bore, darllen y papurau o glawr, a darllen pennod o'r Beibl bob dydd. Dyma lun Iwan Glyn, sy'n bedair oed, gyda Mr Tom Parry, yr arwerthwr ffaeth. Llongyfarchiadau i chi Mr Parry!

AM DDEWIS Hael A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis 871272
CANOLOG I'R FRO



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: **LLANBERIS 872421**

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCH: Dymuna Mrs M.G. Williams, Gwylfa ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod ac yn dilyn ei hymwelriad diweddar â'r ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU: i Geraint Roberts, Y Bontnewydd a Ceri Evans, Blaen Parc ar eu dyweddïad.

DIOLCH: Dymuna Geraint Roberts, Gwendraeth, Y Bontnewydd a Ceri Evans, Blaen Parc ddiolch yn fawr i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'u dymuniadau da ar achlysur eu dyweddïad ar ddydd Gŵyl Dewi Sant.

GWERTHFAWROGIAD: Fore Sul, Chwefror 23 cyflwynwyd copi o'r Atodiad Newydd i'r Llyfr Emynau i Mr Hugh Hughes gan y Parch W.R. Williams, ar ran yr Ysgol Sul, fel gwerthfawrogiad o'r blynyddoedd maith o wasanaeth gyda'r canu yn yr Ysgol Sul a'r Cyfarfod Plant.

CARNIFAL 1986: Er i gyfarfod cyhoeddus arall gael ei alw yn y pentref nos Lun, Mawrth 3, dim ond un person ddaeth i'r Neuadd ynghyd â'r cyn-swyddogion i geisio trefnu'r carnifal eleni.

Penderfynwyd, gan nad oedd diddordeb yn y pentref, na fuasai carnifal yn cael ei gynnal eleni, ond cadw'r arian sydd mewn llaw at y dyfodol.

Yn y gorffennol, mae'r Wythnos Garnifal wedi bod yn llwyddiannus iawn a phawb yn mwynhau'r gweithgareddau, a llawer iawn o fudiadau'r pentref yn cael arian o gronfa'r Carnifal.

Fodd bynnag, mae angen llawer iawn mwy i helpu i drefnu'r nosweithiau, a.y.b., ac efallai y gwelwn Garnifal llwyddiannus eto ym Methel cyn bo hir.

CLWB Y MAMAU: Yn ddiweddar trefnwyd casgliad o amgylch y pentref tuag at Dr Barnardos. Roedd cyfanswm y casgliad yn £34.90. Y casglwyr oedd Ann Hughes a Shân Robinson (£6.86), Olwen Williams (£12.04), Sheila Lambrecht (£4.73), Rhian Bardsley a Val Jones (£6.59), Carys Williams (£4.68). Diolch i bawb am eu gwaith a'u cyfraniad.

YR URDD: Nos Iau, Mawrth 20 cynhaliwyd noson ola'r tymor gyda'r plant yn ymweld â'r pwll nofio yng Nghaernarfon. Cafwyd tymor llwyddiannus iawn eleni ac yn ddiweddar mwynhaodd y plant y noson yn fawr iawn gydag Arfon Wyn a'r Ffug Eisteddfod.

Nos Wener, Chwefror 21 cynhaliwyd Noson Goffi yn y neuadd a gwnaed elw o £125. Enillwyd raffl yr Oen gan Gethin Williams, Saron. Roedd yr Oen yn rhodd hael gan Mr a

Mrs W.O. Griffith, Lôn Glai. Enillwyd y fased o ffrwythau gan W. Green, Deiniolen a Bethan a Manon enillodd y gystadleuaeth adnabod y babi.

Casglwyd eitemau gan gorau ac unigolion o'r Adran oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Arweinydd y noson oedd Llinos Wyn a dymunwyd y gorau i bawb yn yr Eisteddfodau.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch o galon i'r Arweinwyr, Mrs Mair Price a Mr Richard Ll. Jones ac i bawb arall a fu'n gweithio ar ran yr adran yn ystod y tymor. Gobeithir trefnu un neu ddwy noson yn ystod y gwanwyn cyn dechrau'r tymor newydd yn yr hydref.

CLWB Y RHOS: Daeth tymor Clwb y Rhos am eleni i ben nos Lun, Mawrth 10 gyda noson yn yr Ysgol dan ofal Mr Huw Dulyn Williams. Roedd Mr Williams wedi trefnu i Mr Irfon Roberts, prifathro Coleg Technegol Gwynedd, ddod i sgwrsio â'r aelodau. Cafwyd noson ddifyr ar hanes datblygiad Addysg Bellach a datblygiad y Coleg Technegol ym Mangor yn arbennig. Diolchwyd i Mr Roberts ar ran y Clwb gan Mr Geraint Elis.

Ailetholwyd Mr J.E. Thomas yn Ysgrifennydd a Mr Dafydd Williams yn Drysorydd. Etholwyd Mr Collwyn Williams yn Llywydd a Mr Alun Jones, Y Ddôl yn Is-lywydd.

BEDYDDIO: Yng ngwasanaeth bore Sul Chwefror 23 yn y Cysegr bedyddiwyd Nia Catrin Jones, merch Gwynne a Patricia Parry Jones, 15 Tan y Buarth gan y gweinidog, y Parch W.R. Williams.

Dydd Sul, Chwefror 22 bedyddiwyd Lois, merch Mr a Mrs Hughes, Erddig gan Mr Williams.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Mawrth 12 cynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi yn yr Ysgol. Paratowyd pryd blasus i'r aelodau gan y pwyllgor. Wedi'r swper cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Cantorion Moreia. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Williams, Cilgwyn a diolchwyd i Gantorion Moreia gan Mrs Rita D. Williams.

CYDYMDEIMLO: Yn ddiweddar bu farw Mr Henry Frank Roberts gynt o 11 Tan y Cae ond a symudodd i fyw at y teulu yn 7 Tan y Buarth rai misoedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD BETHEL: Erbyn hyn mae pwyllgor Eisteddfod Bethel 1986 wedi dechrau trefnu ar gyfer y gweithgareddau. Mr Goronwy Jones yw llywydd y pwyllgor gyda Mr Dafydd Williams yn drysorydd a Mrs M.G. Williams, Gwylfa yn

DEINIOLEN



Dyma lun i'n hatgoffa bod cyfnod y carnifalau wrth y drws. Yma gwelir y gyn-Frehines Julie o Ddeiniolen yn trosglwyddo'i theyrnas i frenhines 1986—Sioned Wyn Evans (canol). Nid yw'r un o'r ddwy yn ymddangos yn hapus iawn ynglŷn â'r digwyddiad! Yn y llun hefyd mae Nicola Taylor, un o osgordd y frenhines newydd.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i Seindorf Deiniolen ar ennill y wobr gyntaf a Chwpan Coffa William Rimmer yn Southport ddydd Sadwrn, Mawrth 22. Eu tasg oedd chwarae rhaglen hanner awr yn cynnwys cerddoriaeth amrywiol. Roedd pump o fandiau yn y gystadleuaeth a Deiniolen oedd yr unig un o Gymru. Roeddynt 5 marc ar y blaen i'r ail yn y gystadleuaeth. Pob lwc i'r hogia yng

nghystadleuaeth fawr Pontins ddydd Gwener, Mawrth 28.

CYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO: Cofiwch mai yn Neiniolen y cynhelir y cyfarfod pwysig yma eleni. Dylasai pawb sydd â diddordeb yn nyfodol ein papur bro wneud ymdrech arbennig i fod yn Neuadd y Ganolfan, Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Ebrill 4 am 7 o'r gloch.

Llawer mwy o newyddion
DEINIOLEN
ar dudalen 14

BLE MAE GRWPIAU POP Y FRO?

Mae'r rhaglen Bilidowcar sydd i'w gweld ar S4C am 5 o'r gloch bob pnawn Mercher wedi lansio cystadleuaeth Pobdri eto eleni.

Y llynedd penderfynwyd cynnal y gystadleuaeth er mwyn hybu grwpiau ifanc a gwerthiant recordiau sengl yng Nghymru, ac fe fu'r ymateb yn wych. Gwelwyd dros ddeugain o grwpiau yn unigol yn eu gwahanol ardaloedd.


Felly os oes yna grŵp nad ydynt wedi cyhoeddi record na chaset a bod ganddynt gân wreiddiol, beth am gystadlu?

Gyrrwch am ffurflen i Bilidowcar, BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

ysgrifennydd. Penderfynwyd cynnal yr Eisteddfod eleni ar Sadwrn, Tachwedd 1.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**J.M. JONES
a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLEN**

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)**

'BETHEL' a'r 'BEDOL'

Y sôn a'r siarad am ymdrechion i rwystro trwydded yfed i hen gartref St Teilo ym mhentref Bethel ysgogodd hyn o eiriau.

Fel un â'i gwreiddiau yn ddwfn ym mhrridd yr ardal, ag sy'n ymfalchio yn ei thraddodiadau glew, rhaid imi gyfaddef i wefr o foddhad llwyr o ddarllen am wrthodiad yr Ustusiad yn y Llys Trwyddedu. Mae'n dda gwybod bod yna ym Methel o hyd, "weddill" o ardalwyr sy'n aros yn ffyddlon a theyrnga'r i'r hyn sydd oreu a chlodwiw yn ei thraddodiad, a da oedd darllen am safiad gweinidog yr ardal yn y Llys.

Mae'r deg cydnabod, prun bynnag, mai ychydig iawn o breswylwyr presennol y pentref sydd â'u gwreiddiau teuluol yng ngorffennol y pentref. Mae disgynyddion hen deuluoedd yr ardal yn prinhaus gyson, ac ni ellir disgwyl yr un teyrngarwch ac ymlyniad i draddodiad ac arferion y pentref oddi wrth "bobl ddwad", erystal cyfraniad ac ymroddiad clodwiw llawer o'r ardalwyr da yma i fywyd cyfoes y pentref.

Yn sgîl yr ymdrech bresennol ynglŷn â thrwyddedu, neu beidio trwyddedu, adeilad St Teilo, daeth i'm cof ysgrif a ddarllenais beth amser yn ôl yn y cylchgrawn enwadol 'Porfeydd' (sydd heb fod yn ymddangos bellach). Un o "hogia" disgleiriaf yr ardal oedd awdur yr ysgrif, sef y diweddar erbyn hyn, Mr Ffowc Williams, Llandudno, a'i destun oedd 'Cau Hen Dafarn'. Cefais ganiatad golygydd olaf 'Porfeydd', y Parch J. Gwilym Jones, Bangor, i gyflwyno'r stori fel yr ymddangosodd yn y cylchgrawn, rhifyn Ionawr-Chwefror, 1983:

CAU TAFARN

Rydym wedi clywed cymaint o sôn yn ddiweddar am agor tafarnau Cymru ar y Sul, fel y tybiais mai diddorol i ddarllenwyr *Porfeydd* fyddai cael hanes am gau tafarn nid yn unig am Sul ond am byth. A dyma'r hanes. Bwthyn bychan unllawr oedd Blaen-rhos ar ymyl y ffordd fawr a arweiniai o Gaernarfon i Fethesda. A dyma gartref y Ffowciaid. Mae'r hen fwthyn yno hyd heddiw ond fod darnau wedi eu hychwanegu ato yn y ddau ben.

Pan ddeilliais i fod fy hen gartref wedi bod yn dafarn unwaith, fe benderfynais geisio cael y stori. Llwyddais i olrhain yr hanes i ddyddiau Wil Ffowc a'i wraig Marged. 'Roedd Wil Ffowc yn daid i fy nhad. 'Roedd ganddo dri mab, a Ffowc Williams fy nhaid oedd un o'r tri. Y pryd hwnnw 'roedd yno gegin helaeth a dwy ystafell wely yn arwain ohoni, a chroglöff helaeth uwchben y ddwy siambar. Ac yno y cysgai'r

meibion. I fynd iddi gosodid ysgol o'r gegin i'w drws, a dymudid yr ysgol wedi i'r bechgyn noswyllo. 'Roedd ffenestr yn nho y llofft y gellid ei hagor. A phan fyddai ar agor gellid clywed sgwrs pawb a fyddai'n mynd heibio.

Wrth dalcen y siamberydd 'roedd y sgubor lle treuliai Wil Ffowc ei oriau gwaith. Cigydd oedd Wil Ffowc, ac yn y sgubor y byddai'n gwneud ei waith. Cafodd ganiatâd stad y faenol i gau faint a fynnai o'r hen gors fawr tu cefn i'w dŷ, i droi anifail yno dros nos pan fyddai angen. A dyna'r cae bach sydd i'w weld yno heddiw.

Er yr enw "cwrw Wil Ffowc," ei wraig fyddai'n ei fragu ac yn edrych ar ei ôl, ond heb yfed yr un dropyn ohono ei hunan. 'Roedd y teulu o bump yn aelodau yng nghapel Bethel (Annibynwyr) a'r meibion yn chwarae rhan amlwg iawn yno.

Wel, un nos Sadwrn olau leuad, 'roedd y pump wedi noswyllo'n gynnar. Wil Ffowc a'i wraig yn y siambar ffrynt a'r meibion fel arfer yn groglloft. Toc dyma'r bechgyn yn clywed criw o lafnau Bethel yn dod yn uchel iawn eu cloch wedi bod yn diota yn Gors Bach, y dafarn wrth Eglwys Llanddeiniolen, ac yn planio i droi i mewn am un glasiad bach o gwrw Wil Ffowc cyn mynd adre. Pan ddaethant at y tŷ a gweld fod pawb wedi mynd i'w gwelâu, i mewn â nhw drwy'r giat i waldio'r drws ffrynt a ffenestr siambar Wil Ffowc a hawlio iddo godi i roi glasiad iddynt. Fe gododd Wil Ffowc at y drws, ond i dreio perswadio iddynt fynd adre yn ddistaw. Ond ei wrthio i mewn a gafodd ac i mewn â hwythau gan hawlio glasiad yr un.

Ar hynny dyna ddrws y groglloft yn agor a'r tri brawd yn neidio i ganol yr helynt, a'u byrlymio nhw yn ôl drwy'r drws ac yna drwy'r giat i'r ffordd a'u cychwyn i lawr am y pentref. Pan ddaethant yn ôl at y giat, buont am sbel cyn dod yn ôl i'r tŷ. Pan aethant i mewn, cawsant eu tad yn treio cysuro ei wraig, a dyna hwythau yn cyhoeddi beth oeddynt wedi'i benderfynu wrth y giat cyn dod i mewn, na werthid yr un dafn o gwrw yn Blaen-rhos byth wedyn. "O diolch," meddai'r fam. Ac felly y bu.

Tyfodd y tri brawd i fod yn golofnau cedyrn iawn yng nghapel Bethel ac yn uchel iawn eu parch yn

yr holl gymdogaeth. Byddai cynghorion yr hen Owen William, yr hynaf o'r tri, yn cael eu dyfynnu am flynyddoedd wedi iddo farw.

Lawer gwaith y clywais i hen fodryb i mi yn dweud, "Os byddi di hanner cystal dyn â Ffowc Williams dy daid mi fyddi wedi bod yn werth dy fagu." Byth er hynny, Gors Bach, bron i ddwy filltir i fyny'r ffordd, yw'r dafarn agosaf at ardal Bethel.

Ymhyfrydaf o gael hawlio fy mod innau yn yr un llinach â Mr Ffowc Williams; mae'n debyg mai fy hen daid, o ochr fy mam, Thomas William Ffowc oedd un o'r tri brawd benderfynodd gau drws tafarn pentref Bethel am byth.

Mae cyfeiriad at y dafarn yng nghofiant yr Hybarth David Griffith, gweinidog cyntaf yr Annibynwyr yn yr ardal. Yn ôl yr hanes caniatwyd trwydded i agor y dafarn i wraig y tŷ yn 1832, a hynny er gofid mawr i'r gweinidog ac arweinwyr crefyddol yr ardal ar y pryd. Mewn sgwrs â'r dafarnwraig, gofynnodd y gweinidog iddi, pa reswm oedd ganddi dros agor y dafarn - ei hateb oedd mai - "er mwyn cael dipyn o fywoliaeth."

Yn ôl y Cofianydd - "cadwodd y wraig y dafarn, mewn llawer iawn o flinderau," ac yna yn 1837 "rhoddodd ei thrwydded i gadw tŷ tafarn i fyny am byth." Cyfeiriodd y Parchedig David Griffith at hyn o'r pulpud un o'r Suliau canlynol, gan gloi gyda'r geiriau "ei fod yn dymuno na châi byth weled yr un tŷ tafarn arall yn cyfodi yn yr ardal."

Hyd yn hyn cafodd ei ddymuniad.

Mae'n deg cydnabod, fodd bynnag, na fu pentref Bethel ronyn fwy dirwestol ei ymarweddiad nag unrhyw ardal arall yn y plwyf. Rhaid cyfaddef, yn ogystal, fod peth gwir yng ngeiriau twrna'r apelydd yn y Llys Trwyddedu pan haerodd mai traddodiad crefyddol yr ardal oedd yn gyfrifol am y gwrthwynebiad i'r drwydded, ond rwyf braidd yn amheus am effaith diwygiad '04-05'. Dywedodd ymhellach mai 'Mater Eglwysig' yw - digon gwir, a pham lai, ond onid yw yn fater moesol, a synhwyrol yn ogystal.

Mewn cyfnod pryd y mae mellthith alcoholiaeth yn dwysáu ac yn lledaenu, â'i effaith andwyol a dinistriol yn difwyno a difa bywydau ieuainc, yn rhwygo teuluoedd, yn chwalu aelwydydd, onid yw'n gyfrifoldeb moesol, ac onid synnwyr cyffredin yn gwneud yn siŵr mai lleia'n y byd o gyfleusterau i werthu'r stwff sydd ar gael yn ardaloedd cefn gwlad Cymru, - gorau'n y byd!

Caewyd drws yr unig dafarn a fu yn y pentref 150 mlynedd yn ôl, ar benderfyniad y tafarnwyr oherwydd cambyhaffio'r cwsmeriaid.

Hei lwc na chaiff yr un cwsmer gyfie i aflonyddu ar yr un tafarnwr na'i deulu, mewn unrhyw dafarn ym Methel am flynyddau maith eto.

Helen Jones
Bod Hyfryd
Ffordd y Gogledd
Caernarfon

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion.

NEWID BRO: Dymunwn fel ardal pob lwc a hapusrwydd i Mrs Jean Elis yn ei chartref newydd ym Methel. Bu'n byw yn y Nant am 39 o flynyddoedd, a gwelwn ei cholli yn arw. Roedd yn aelod ffyddlon o'r capel a hi oedd gohebydd Newyddion y Nant yn yr Eco.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Mrs J.M. Williams, Cae Perthi ar fod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Emma Louise, i Alan a Glenda Williams. Mae Alan yn wŷr i Mrs Williams. Mae hyn yn golygu hefyd fod Mr a Mrs William Arthur Williams, Cefn, Bethel yn nain a taid am y tro cyntaf.

CYMDOGION NEWYDD: Croeso i Mrs Evans a'r teulu i'n plith, byddant yn ymgyrtrefu yn 8 Rhes Glanrafon.

PROFEDIGAETH: Yn ystod y mis fu farw Mrs Eurus Jones, Tŷ Croes, Carmel, roedd yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Huw Owen, Yr Hafod.

Cydymdeimlwn â Mr Idris Jones ei gŵr a'r merched, Menna, Enid ac Annwen, hefyd ei chwaer Mrs Gwen Rees, Caerfyrddin, a'u brawd Mr Michael Owen, Pensarn, Sir Fôn.

YSGOLORIAETH ARIANNOL: Llongyfarchiadau i David John Pritchard, Llys Awel ar ennill ysgoloriaeth ariannol yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin. Mae hefyd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar Fawrth 23. Dymuniadau da at y dyfodol David.

PRAWF GYRRU: Llwyddodd Neil Price y Llythyrdd ei brawfgyrru car yn ddiweddar. Da iawn Neil.

DIWRNOD GWEDDI: Cynhaliwyd Diwrnod Gweddi Chwiorydd y Byd yn Festri Rehoboth prynhawn Gwener, Mawrth 7. Treuliodd chwiorydd Eglwys St Peris a Rehoboth orig fendithiol yn y cyfarfod o dan arweiniad Mrs Alice S. Jones.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Fase chi'n hoffi tynnu coes rhywun?

(Aelod o'r teulu, ffrind, cydweithiwr, a.y.b.)

Fase chi'n hoffi gwneud hyn ar S4C?

Os 'faswn' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn uchod, felly gyrrwch fanylion cyfrinachol at:

Cwmni'r Castell Cyf.,
1 Rhiw Road,
Bae Colwyn,
Clwyd LL29 7TE.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

ECO'R IFANC



Cerdd Dant — Ysgol Gwaungynfi



Elin Gwilym (Waunfawr) — Adrodd 10-12 oed.



Osián Gwynedd (Waunfawr) — Unawd Chwythbrennau dan 12 oed.

Oes ganddoch chi neu un o'ch ffrindiau freuddwyd arbennig?

Rhyw ysfa i wneud rhywbeth anghyffredin? Awydd mynd i rywle arbennig? Neu gyfarfod â rhywun enwog? Dyma gyfle i chi wireddu'ch breuddwydion ar S4C. A oes ganddo chi ddiddordeb? Ysgrifennwch atom ni gyda'r manylion

Cwmni'r Castell Cyf.,
1 Rhiw Road, Bae Colwyn,
Clwyd LL29 7TE.



BUDDUGWYR BRO'R ECO

Llongyfarchiadau i bawb fu'n fuddugol yn Eisteddfodau Sir Eryri POB LWC YM METHESDA



Parti Unsain Ysgol Gwaungynfi



Parti Bethan, Llanrug (Parti Telynau dan 12). Daeth Gwenan Mair Roberts (canol) yn gyntaf ar yr unawd delyn a'r unawd llynnol dan 12. Cafodd Lowri Angharad Roberts y wobwr gyntaf ar yr unawd biano dan 12. Ar y chwith mae Bethan Lloyd Roberts.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ddydd lau, Mai 1. Deunydd Eco'r Ifanc i law erbyn nos Fawrth, Ebrill 22 i Edward Elias, Gwêl y Wawr, Llanrug.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Y GYSTADLEUAETH

Enillwyr y gystadleuaeth crysau 'T' "Drannoeth y Ffair" oedd:

Angharad Elis, Cilgeran, Bethel
Catrin Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis
LLONGYFARCHIADAU — mae'r crysau 'T' ar y ffordd!



Parti Recordyddion Dan 12 Oed — Adran Bentref Waunfawr.



Siôn Wyn Hughes (Deiniolen) — Unawd Pres dan 12 oed.

BUDDUGWYR EISTEDDFOD DAN 15 AC AELWYDYDD

Ffion Jon Williams, Llanrug (Unawd Cerdd Dant ac Unawd Merched 12-15 oed)

Nan Wyn, Adran Waunfawr (Siarad Cyhoeddus)

Siân Llwyd a Caren Roberts, Adran Waunfawr (Deuawd Piano, 12-15 oed)

Parti Adrodd (Aelwydydd) — Adran Waunfawr

Iwan Williams, Deiniolen (Unawd Pres 12-15 oed)

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a fu ym Mhwllheli ar Fawrth 22 a phob llwyddiant i'r rhai ohonoch fydd yn cystadlu yn Nyffryn Ogwen ddiwedd Mai.



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD YR URDD: Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Gylch a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Chwefror 22 ac aethant ymlaen i'r Eisteddfod Sir ym Mhwllheli ddydd Sadwrn, Mawrth 22.

GLAN-LLYN: Rhai wythnosau'n ôl aeth disgyblion o'r ysgol i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn am benwythnos. Yn ôl pob sôn, roeddynt wedi mwynhau eu hunain ac wedi cael cryn sbort.

S4C: Yn ystod y mis bu S4C yn ymweld â'r ysgol yn ffilmio rhai o aelodau'r pumed dosbarth yn siarad am eu dyfodol sef Luned Roberts, Guto Jones, Llinos Davies, Dewi Morris, Alwen Jones a Tony Mazwell. Ymddangosodd tri ohonynt, Luned,

Guto ac Alwen ar y rhaglen 'Byd ar Bedwar' nos Fercher, Mawrth 19.

A FEDRWCH CHI ROI HELP LLAW OS GWELWCH YN DDA?

Y mae disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol Brynrefail yn casglu enwau caeau bro'r Eco. Byddent yn falch o unrhyw wybodaeth a chyfraniadau a fyddai o fudd i'w hymchwil gan ddarllenwyr yr Eco.

THEATR BARA CAWS: Ddydd Gwener olaf y tymor cafwyd perfformiad cofiadwy yn ymwneud â phroblemau'r ifanc gan Theatr Bara Caws. Braf iawn oedd gweld cymaint o ddisgyblion o'r ysgol yn dangos diddordeb a gobeithio bydd perfformiadau cyffelyb yn y dyfodol agos.

FFUG EISTEDDFOD 3A

FFUG EISTEDDFOD 3A: Yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar cynhaliwyd un o eisteddfodau gorau'r ganrif - Ffug Eisteddfod Dosbarth 3A! Yn llywyddu 'roedd Mrs Esyllt M. Jones a'r beirniaid oedd Mrs Rhian Ellis a Mrs Ann Jones - diolch yn fawr iddynt am fod yn feirniaid teg. Rhannwyd y dosbarth yn dri tîm - Tîm A, B a C.

Yn gyntaf cafwyd beirniadaeth y cystadlaethau llenyddol. Y tasgau oedd:

1. Lluio brawddegau o'r geiriau BETHEL a CAERNARFON
2. Limerig ysgafn yn dechrau - "Un diwrnod wrth fyned am dro."
3. Ysgrifennu llythyr caru.
4. Deialog rhwng dau bysgodyn mewn pot jam.

Yn fuddugol ar lunio brawddeg o'r gair BETHEL daeth Catrin o dîm A. Daeth Bethan o dîm C yn ail ac Eurgain o dîm B yn drydydd.

Breuddwyd Erchyll Twm - Helen Efo Locsyn?

Eurgain o dîm A oedd yn fuddugol ar lunio brawddeg o'r gair CAERNARFON. Daeth Catrin yn ail a Dyfrig yn drydydd.

Dyma frawddeg Eurgain:

Cafodd Arfon Ei Rybyr Nics A'i Rabyf Fry O'r Nef.

Eurgain oedd yn gyntaf ar y limerig, Catrin yn ail a Sioned yn drydydd.

Y gystadleuaeth agoriadol oedd y Gystadleuaeth Adrodd dan 5 oed. Ymgeisiodd nifer o fabanod brawdfrydig ond dim ond un ddaeth i'r

brig a Catrin oedd honno. Toddodd ei rhubanau bach pinc a'i ffrog fechan ffrili galonnau y beirniaid. Adroddodd "Dau Gi Bach". Yn gydradd ail daeth Eirlys a Jennifer ac yn gydradd drydydd daeth Carys a Dylan Cole.

Y gystadleuaeth ddilynol oedd Canu dan 5 oed. Eto cafwyd nifer o ymgeiswyr. Barley a Rebecca rannodd y wobwr gyntaf gyda lona yn ail agos iawn ac Eurgain yn drydydd.

Yna cafwyd aelod o bob tîm i ddod ymlaen a dynwared unrhyw berson. Cawsom lona o dîm A yn dynwared athrawes o'r ysgol; Dylan Cole a Dylan Pierce yn dynwared Syr Wynff a Plwmsan; a Sioned o dîm C hefyd yn dynwared athrawes o'r ysgol. Llwyddodd lona i gipio'r wobwr gyntaf yn ogystal â gadael y beirniaid yn farw chwerthin.

O'r diwedd daethom at y gystadleuaeth olaf - uchafbwynt yr Eisteddfod. Y dasg a roddwyd i bob tîm oedd ffurfio Band y Gegin yn seiliedig ar yr alaw "Mae bys Meri Ann ..."

Byddarwyd y Neuadd gan swm hen sosbenni yn cloncian, tegellau yn chwibanu, llwyau yn tincian ac ati. Daeth y beirniaid i'r casgliad mai Tîm B oedd yn haeddu'r wobwr gyntaf.

Cyn pen dim yr oedd prynhawn llawn hwyl a sbri yn tynnu at ei derfyn. Bu distawrwydd llethol wrth i'r sgôr gael ei gyfrif ... wrth gwrs, tîm B oedd yn fuddugol!

Adroddiad gan Eurgain Haf Evans

CYSTADLEUAETH SGÏO YSGOLION PRYDAIN

GLENSHEA, YR ALBAN
Mawrth 9, 1986

Mae'r gystadleuaeth hon wedi cael ei chynnal ers pedwair blynedd bellach. Caiff 20 o ysgolion o Loegr, Iwerddon, Alban a Chymru eu dewis i gystadlu. Mae rhif yr ysgolion o bob gwlad yn dibynnu ar safon y tîmau ymhob gwlad. Y mae gan bob gwlad dri tîm yn eu cynrychioli ac yn ychwanegol at hyn un tîm ychwanegol ar gyfer ysgolion a fu ymhlith y deg cyntaf mewn cystadlaethau blaenorol.

Y flwyddyn hon, 'roedd gan yr Almaen naw ysgol, Lloegr pum ysgol a Chymru ac Iwerddon tair yr un. Roedd y tri tîm o Gymru o Ysgol Brynrefail, Moelwyn a Dyffryn Conwy.

Daeth Ysgol Brynrefail yn seithfed yn y canlyniadau terfynol a'r ysgol fwyaf llwyddiannus tu allan i'r Alban. Y flwyddyn nesaf, mae gan Cymru bedwar tîm yn hytrach na thri ac felly cyfle gwell i wella eu safle yn y dyfodol.

Tîm Brynrefail oedd - Kirsty McCann (Capten); Mathew Ingle; Philip Ingle; Bryan Glass; Michael Wroe (wrth gefn).

Enillodd Tim Lloyd, cyn-ddisgybl o'r ysgol, y bencampwriaeth unigolion ddwy waith yn olynol yn 1983 a 1984. Y mae erbyn hyn yn aelod o'r Tîm Sgïo Prydeinig ac ar hyn o bryd mae dan hyfforddiant yn Ffrainc.

CORNEL FARDDONIAETH

YMWELIAD Â'R DEINTYDD

Daeth y diwrnod y bûm 'n arswydo drwy'r mis
Diwrnod ymweld â'r deintydd.

I mewn â mi drwy'r drws mawr gwyrdd
Hwnnw'n cau gyda chlemp,
Nawr does dim troi'n ôl.

Agor mynedfa'r stafell ddisgwyl
Y drws yn gwichian
Fel llygoden yn osgoi pawen y gath.

Rhes o wynebau yn codi o lyfrau
Ac yn sylu arnaf
Fel petawn yn dod o blaned arall.

Ar ôl i'r derbynydd alw fy enw
I lawr y cyntedd â mi,
I 'stafell y deintydd
Fel llofrudd i gwr.

Eistedd yng nghadair du 'Mastermind'
Agor fy ngheg
Mae 'Magnus Magnusom'
Wedi pasio dau ddaint
Ac wedi cyrraedd yr un drwg.

Lamp y glïowr
Yn llygadrythu i'r gloddfa dywyll
I chwilio am y darn glo.

I lawr â'r dril
I mewn i 'ngheg
Gan dylu trwy'r dant du.

Mae'r rhesi dannedd gosod
Fel petaent yn chwerthin am fy mhen
Wrth i'r 'filling' arian
Gymryd lle fy nant.

Neidio allan o'r gadair
Ac yna diolch i'r deintydd clên!

Wrth i'm gerdded adre
Â sticer yn fy llaw
Mae 'ngheg yn llawn
O emau gwyn, perffaith!

Bryn Jones
(Llanrug)

Y DIAFOL DRWG

Rhyw ddiabol du hyll
Yn camdrin angylion gwyn,
Rhaid mynd at y deintydd.

"Twt, twt," meddai'r deintydd da,
"Rwy'ti rhy hoff o dda-da."
Felly i mewn â mi ac eistedd i lawr.

Gwelais y gwenyn haearn
Yn crech-wenu arnaf,
Fy ngheg yn troi'r garreg oer.

Y dant yn chwil 'rôl siglo'n ôl ac ymlaen.

Yna plwch bach sydyn
A'r diabol du wedi ei erlid, a dim
Ond twll lle bu.

Mared Sutherland,
(Deiniolen)

ELIFFANTOD MAWR YN YSGOL BRYNREFAIL

Bu Cwmni'r Frân Wen, sef Cwmni Theatr Mewn Addysg yn ymweld â'r ysgol ar ddechrau'r mis. Enw'r cyflwyniad oedd 'Ar Gefn Eliffant' a rhoddwyd perfformiad bywiog ac addysgiadol i ddisgyblion Blwyddyn 1. Yr oedd iddynt fod yn rhan o'r perfformiad gyda chyfrifoldeb yn y sefyllfa a griewyd. Dyma adolygiad o'r cyflwyniad gan Dawn Thomas o Ddeiniolen.

Fel hyn dechreuodd y stori:

Roedd Meleri yn disgwyl am yr awyren i fynd â hi i India. Yna daeth dyn o'r enw Keith ati a gofyn iddi lle yr oedd hi yn mynd.

"I India," atebodd.

"Ia," dywedodd Keith, "a finnau hefyd."

Felly aeth y ddau gyda'i gilydd i'r India.

Ar ôl cyrraedd yr India dechreuodd y stori yn iawn. Roedd y ddau ohonynt yn gwneud yr un peth, sef helpu'r Indiaid. Roedd llawer iawn o'r Indiaid yn sâl heb fwyd a dŵr. Yn y diwedd llwyddodd Keith i gael pwmp dŵr i'r bobl. Ond ar ôl rhyw fis neu ddau torrodd y pwmp ac nid oedd dim dŵr i'r bobl unwaith eto. Rŵan yr oedd pawb yn rhoi y bai ar Keith druan. Bob dydd roedd yr haul yn tywynnu arnynt ac roedd hi'n boeth iawn. Roedd y dyddiau i gyd yn hir a'r nosweithiau i gyd yn fyr. Roedd y bobl yn dechrau mynd yn sâl unwaith eto a hyd yn oed rhai yn marw.

Yna dechreuodd Meleri a Keith ffræo. Dydd ar ôl dydd yr oeddynt yn ffræo. Yna penderfynodd y ddau fynd adref ar wahân.

Roedd y sioe yna yn un ardderchog roedd Meleri a Keith yn actio yn dda iawn wrth wneud wynebau a lleisiau gwahanol bob tro. Hon oedd y sioe orau yr wyf i erioed wedi ei weld. Ar ddiwedd y sioe daeth Meleri atom a gofyn "A ydych chi yn meddwl y dylai Keith a fi fod yn ffrindiau yn eto?" a "A ydych chi yn meddwl y dylai Keith a fi fynd yn ôl i India gyda'n gilydd?"

Wel fy ateb i wrth y ddau yna yw ydw yr ydw i yn meddwl y buasai yn well i'r ddau fod yn ffrindiau unwaith eto. Mae gennyf reswm personol dros ddweud hyn - pan wnes i ffræo gyda geneth dro yn ôl yr oeddwn yn teimlo'n euog ac unig. Dyma fy nghyngor:

"Mae gan y ddau ohonoch yr un peth yn gyffredin. Hefyd yr ydw i yn meddwl y dylech chi'ch dau fynd yn ôl i India gyda'ch gilydd, achos mae gan y ddau ohonoch amynedd ac amser i helpu pobl. Ond y tro nesaf ewch â mwy o bethau gyda chi." Dyna yw fy marn i am y sioe.

CHWARAEON

Oherwydd y gweithredu diwydiannol yr athrawon ni chynhaliwyd yr Ŵyl Nofio, y rasmus traws gwlad na'r gemau tai eleni. Fodd bynnag, gyda phethau yn araf ddod yn ôl i normal fe fydd Cyfarfod Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn cael ei gynnal yn y Drenewydd ar Fawrth 22. Mae pedwar o fechgyn yr ysgol wedi eu dewis i gynrychioli Ysgolion

Gwynedd - Dan 15: Paul Prydderch (Llanberis); Dan 17: Paul Grant (Llanrug), Mathew Ward (Llanrug), Russell Williams (Caernarfon).

CRICED (Dan 16): Mae Stuart Williams (Llanrug) wedi ei ddewis i gael treial i Gymru. Fe fydd yn mynychu cwrs o dan ofal yr hyfforddwr cenedlaethol, Tom Cartwright yn y Coleg Normal ym mis Ebrill. Pob lwc iddo.

CYFFURIAU A THODDYDDION

Ydych chi wedi gweld pethau a allasai arwain i sefyllfa waeth? Ydych chi wedi clywed, neu efallai'n amheus? Ydych chi angen gwybodaeth? Peidiwch ag oedi, da chwi. Dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol: PC Oscar Evans (Swyddog Cyswilt Heddlu) Caernarfon 3333; Gwynndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215; W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dathlwyd Gŵyl Dewi gan gangen Waunfawr o Sefydliad y Merched yn Ffestri Capel Croesywaun ar Fawrth 6. Croesawyd Mrs Valerie Jones fel aelod newydd gan y llywydd, Mrs Pat Parry, a chyfeiriodd hefyd at waeledd Mr a Mrs O. Williams, Gwynfa, sydd yn yr ysbyty. Dymunodd adferiad buan iddynt ac i Mrs Pardon a Mrs Pegi Jones sydd yn cwyno ac yn methu bod yn bresennol. Hysbyswyd y cyfarfod fod Cystadleuaeth Powlen Rosod y Sefydliad i'w chynnal yn y Waunfawr ar Fehefin 12. Etholwyd Mrs K. Wynn Jones, Mrs Smith a Mrs V. Jones i gynrychioli'r gangen yn Ffederasiwn Gwynedd yng Nghaernarfon ar Fawrth 17. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs Jenny Roberts, Tŷ Hen, yn dweud iddi anfon cyfraniad dderbyniodd gan y gangen i Ward y Plant yn Ysbyty Gwynedd tuag at bryniat teganau arbennig.

Mrs M.E. Jones o Grieth oedd y siaradwr gwadd a mwynhawyd ei sgwrs ffraeth a difyr gan bawb. Mwynhawyd hefyd ei detholiad o'i barddoniaeth ei hun.

Roedd aelodau o Sefydliad y Merched Pontrug yn bresennol a chafwyd detholiad o ganeuon ganddynt. Mwynhawyd swper a baratowyd gan aelodau Waunfawr a diolchwyd i bawb gan Mrs Morgan Jones. Enillwyd gwobrau raffl gan Mrs Missen, Mrs Valerie Jones ac aelod o Sefydliad Pontrug.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 3 pryd y cawn sgwrs ac arddangosiad o waith lledd gan Miss Gillian Smith, Pwllheli.

LLONGYFARCHIADAU: i P.C. Stephen Nesfield, Nefyn am gerdded 50 milltir gyda chyfaill dros Apêl Urdd Gobaith Cymru. Sais yn siarad Cymraeg yn rhugl yw Stephen, wedi ei fagu yn y Waun. Diolch o galon iddo am y £150 a gasglodd. Cychwynnodd y ddau am 6 o'r gloch am Bwllheli, Llanaelhaearn a thros yr Eifl i Lithfaen, Pistyll, Nefyn, Edeyrn, Tudweiliog, Aberdaron yna dros Rhiw ac yn ôl i Abersoch.

CLWB GWYRFAL: Treuliwyd bnawn lau Chwefror 20 yng nghwmni'r Parch a Mrs Ifor Rowlands, Caernarfon gyda Mrs Morgan Jones yn llywyddu. Croesawyd Mr Evan Hughes a Mrs Mary Lloyd yn ôl ar ôl gwaeledd a Miss Gladys Lewis ar ôl naw wythnos o wyliau. Hefyd diolchodd y llywydd i Mrs Jennifred Jones a Mrs Bennet sydd yn paratoi ar eu cyfer bob wythnos. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jones, Eilian Teras a Mrs Pritchard, Tref Eilian a'i henillodd.

Gyda chymorth darluniau diddorol cawsom hanes ein cyn-weinidog y Parch Ifor Rowlands yn Awstralia ddwywaith ac ar ei wyliau gyda Mrs Rowlands yn Israel yn ddiweddar. Daethom yn gyfarwydd â chapeli Awstralia a Tasmania a hefyd capeli Cymru, Capel y Greos, Wrecsam yn adeilad diddorol iawn a hefyd un o gapeli hynaf Arfon yn Nhremadog. Hefyd cawsom ein hatgoffa am gapel Baladeulyn wedi di dynnu i lawr a chapel Bethel Waunfawr a gorffen y sgwrs yn swm organ capel Bethel. Mrs Jones, Eilian Teras oedd yn diolch yn wresog i'r gŵr gwadd am ei sgwrs addysgiadol.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd gyda Mr Leslie Jones yr Ysgolfeistr a'r staff yn ein croesawu. Cyfeiriodd Mr Jones at golli'r dirprwy athro Mr R.H. Owen a fu farw yn frawychus o sydyn yr wythnos cynt ar ôl pum mlynedd ar hugain o wasanaeth ffyddlon yn Ysgol y 12

Waun. Byddai'n gofalu'n dyner am bob dosbarth a'u hathrawon pan yn cymryd rhan yn y rhaglen. Cafwyd rhaglen deilwng iawn; y plant ar eu gorau yn cydweithio gyda'u hathrawon. Tra yn diolch am y gwasanaeth talodd llywydd y clwb deyrnged i Mr Owen a diolch i'r plant a'r staff a staff y gegin am eu cymorth hael. Cafwyd eitem grefyddol gan bob dosbarth er cof am eu hannwyl athro.

Mae'r clwb wedi treulio Gŵyl Ddewi yn rheolaidd ers 1971 gyda'r ysgol. Diolchwn am gyfraniadau'r plant, staff a staff y gegin a'r ysgolfeistr a'r rhieni am eu gofal a'u haelioni. Hefyd anfonai'r clwb eu cydymdeimlad llwyr â Mrs E. Owen a'r ddwy ferch, Sioned a Helen, yn eu hiraeth ar ôl tad a phriod annwyl. Diolch ardal am athro gwych am chwarter canrif.

YR YSGOL: Marwolaeth Mr R. Hugh Owen Daeth ton fawr o dristwch i'r ysgol a'r ardal ym marwolaeth brawychus o sydyn Mr R.H. Owen. Bu'n athro di-flino yn yr ysgol am bron i bum mlynedd ar hugain - y naw mlynedd olaf fel Dirprwy-brifathro. Yr oedd wedi edrych ymlaen i ymddeol ddiwedd y flwyddyn hon.

Yr oedd ganddo bersonoliaeth dawel a di-rodres. Yn hynod o gydwybodol a deddfol, yn drefnus a thrylwyr bob amser. Trwy ei bersonoliaeth hawddgar yr oedd yn hynod o gymeradwy gyda'i gyd-aelodau ar y staff a chan rieni'r plant. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Eysyllt Owen, Sioned, Helen Gwerfyl, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Y mae teimlad cryf gan yr athrawon, a nifer fawr o rieni a ffrindiau, ein bod yn prynu rhywbeth i'r ysgol i gofio amdano. Y bwriad yw prynu Darllenfa i'w defnyddio'n ddyddiol gan y plant yn y Gwasanaeth Boreol. Bydd unrhyw gyfraniad tuag at brynu'r Ddarllenfa yn dderbyniol iawn gennym yn yr ysgol.

DIOLCH: Dymuna Eysyllt, Sioned a Helen Gwerfyl, Dolwen, Groeslon a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth chwerau o golli priod a thad annwyl, R. Hugh Owen. Diolch hefyd am y llu cardiau, llythyrau a galwadau ffôn dderbyniwyd ac sydd yn rhy niferus i'w hateb. Y mae pob gair o gydymdeimlad o ardaloedd y Waunfawr, Rhosgadfan a'r Groeslon wedi bod o gysur yn eu trallod.

Diolch diffuant hefyd am y cyfraniadau haelionus sy'n dal i ddod i law tuag at Apêl Scanner, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror: 1. £40: Mrs Barbara Griffiths, 10 Bro Waun; 2. £25: Dr Huw Roberts, Surgery; 3. £10: Dr Huw Roberts, Surgery.

DIOLCH: Dymuna teulu Fferm Bodhyfryd, Waunfawr ddiolch o galon am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl a charedig. Diolch hefyd am y nifer o gardiau a'r cyfraniadau haelionus a ddaeth i law - dros £500 - tuag at Apêl Scanner, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

YR URDD: Daeth tymor yr Urdd i ben ar ôl blwyddyn hapus a diddorol. Diolch yn fawr i Gareth Jones, Glyn Ceris, am ei waith gyda'r plant bob wythnos. Hoffai'r pwyllgor gyhoeddi y byddant yn cynnal bore coffi yn y Ganolfan, bore Sadwrn, Ebrill 26 i godi arian tuag at yr Urdd yn

ganolog. Rydym yn siŵr y bydd llawer yn falch o gael cyfrannu arian tuag at y mudiad sydd wedi rhoi llawer o bleser a mwynhad i genedlaethau o blant Cymru. Byddwn yn falch o gael derbyn eich cyfraniadau, bach a mawr, rhwng 10-12 o'r gloch y bore, Ebrill 26.

Am y tro cyntaf erioed, bydd Adran yr Urdd, Waunfawr yn cael ei chynrychioli yn y gornestau nofio yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd Kailey Jones yn y gystadleuaeth nofio rhydd dan 10 oed pan gynhaliwyd gala nofio ym Mangor yn ddiweddar.

Hefyd bydd tîm pêl-droed 5-bob-ochr dan 15 oed yn cystadlu yn y rowndiau terfynol yn Aberystwyth ym mis Mai. Pob hwyl i Kailey a'r hogia.



Daeth llwyddiant i ran rhai o blant yr Urdd yn yr Eisteddfod Sir dan 12 oed hefyd, a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Sadwrn, Mawrth 15.

Enillodd Osian Gwynedd yn y gystadleuaeth chwythbrennau ac Elin Gwilym ar adrodd, a hefyd enillodd y parti recordyddion a hyfforddwyd gan Mrs Marston. Cafodd Osian, Elin a'r parti ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid, felly pob lwc iddyn nhw i gyd yn yr Eisteddfod yn Nyffryn Ogwen ym mis Mai.

Bydd llawer o'r plant hŷn yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir dan 15 a 25 oed ym Mhwllheli, Mawrth 22.

DIOLCH: Dymuna Mrs D.A. Roberts, Dwyros, Waunfawr ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd gan deulu a chymdogaion a ffrindiau tra yn yr ysbyty. Diolch arbennig i'r meddygon, staff yr ambiwlans a staff arbennig Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU:

I Mr a Mrs Lleufer Pritchard, Min y Grug, ar ddathlu eu priodas arian.

I Mr a Mrs R.L. Parry, Rhes Eilian, ar ddathlu 55 mlynedd o fywyd priodasol, a hefyd i Mrs Parry ar ddathlu ei phen-blwydd yn 82 mlwydd oed.

I Mrs Katie Wynn Jones, Bron Eifon ar lwyddo yn ei arholiad piano, Gradd 3.

CYDYMDEIMLWN: â Miss Mem Williams, Weriglodd Goch, ar golli ei

brawd, Mr John Peter Williams, a oedd yn byw yn yr Amwythig.

MERCHED Y WAWR: Dathlodd aelodau'r gangen Wyl Dewi yn y Ganolfan. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Cadi Jones y llywydd.

Cydymdeimlwyd â Mrs Eysyllt Owen, Groeslon a'r teulu yn eu profedigaeth - bu Mr H. Owen ar staff yr ysgol am dros 20 mlynedd, ef oedd y dirprwy-brifathro.

Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, a dymuno'r un llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir.

Penderfynwyd bod y gangen yn casglu at y 'Spastics' a chafwyd gwirfoddolwyr i fynd o gwmpas i wneud y casgliad.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Mudiad Merched y Wawr yn egluro eu safbwynt tuag at yr Urdd.

Treuliwyd gweddill o'r noson yng nghwmni Dei Tomos yn dweud dipyn o'i atgofion er pan adawodd y coleg, diolchwyd i Dei Tomos gan Mrs K. Wynn Jones a diolchodd y llywydd i'r aelodau am gyfrannu nwyddau tuag at y swper.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, a'r enillydd oedd Mrs Doris Roberts, Dwyros.

Mawrth 19 bydd aelodau o'r gangen yn ymweld â changen Rhosgadfan, ac yn ein cyfarfod nesaf y gŵr gwadd fydd Dylan Morgan, Nant Gwrtheyrn. Ceir Bwrdd Gwerthu hefyd y noson yma.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Evan J. Hughes, Pandi, 12 Bro Waun ddiolch yn fawr iawn i'r ardal am eu caredigrwydd tra bu Mr Hughes yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DIDDORDEB YN YR ARDD: Dangosodd un o'r ardal ddiddordeb mawr yn yr erthygl 'Gwraig Tŷ yn yr ardd' yn rhifyn olaf yr Eco, a diolchwn iddo am ei awgrymiadau gwerthfawr.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Chwefror: 1. Mr Bill Owen, Noddfa; 2. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon; 3. John Gwynedd Jones, Nant.


YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan iawn i Mr a Mrs O. Williams, Gwynfa a Mrs M. Griffiths, Tref Eilian sydd yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY: Bu Mrs Doris Roberts, Dwyros, Mrs Ceinwen Lewis, Ael y Bryn, David Bound, Dolafon a Geraldine a David Henderson, Bryn Gwynedd, yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithiwn eu bônt yn parhau i wella ar ôl dychwelyd gartref.

Gobeithiwn hefyd am adferiad iechyd buan i'r nifer fawr o blant y pentref sydd yn cwyno, ac y bydd dosbarthiadau'r ysgol yn ail lenwi ar ôl gwyliau'r Pasgl

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

ADREF O'R YSBYTY: Bu Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir yn Ysbyty Gwynedd am archwiliad meddygol. Da gweld ei fod wedi dod adref ac yn gwella.

Da gweld Mr Robert Williams, Hen Bost wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl llawdriniaeth ac yn gwella. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

TE'R CHWIORYDD: Cynhaliwyd te chwiorydd pnawn lau Chwefror 27 yn festri Dinorwig. Rhoddwyd y te gan Mrs Kate Griffith, Arwelfa. A phnawn lau Mawrth 13 fe roddwyd y te gan Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir.

Y GANOLFAN: Nos lau Chwefror 27 yn y Ganolfan anerchwyd yr aelodau gan y Parch Ifor L. Williams, Bangor, ar ddylanwadau ar ein bywyd. Llywydd y cyfarfod oedd Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir. Ef gyflwynodd y siaradwr i'r aelodau. Cafwyd trafodaeth i ddilyn.

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG: Gwener, Mawrth 7 eleni bu cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Eglwys St Mair. Trefnydd y gwasanaeth: Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian; Arweinydd: Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage. Rhoddwyd anerchiad gan Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog ar y thema 'Dewiswch Fywyd'. Cymerwyd rhan pellach gan y chwiorydd canlynol: Mrs Nettie Williams, 2 Bro Elidir, Mrs Megan Morris, Minffordd, Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, Mrs Katie Griffith, Arwelfa, Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian, Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian, Mrs Eileen Thomas, Bwlch y Gwynt, Mrs Elizabeth Jones, Foel, Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, Mrs Griffiths, Maes Gwylfa, Deiniolen, Mrs Betty Roberts, Maes Eilian, hi hefyd

ofalodd am y casgliad. Mrs Jane Williams, 12 Maes Eilian oedd yr organyddes.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i'r ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi.

CAWL A CHÂN: Nos lau, Mawrth 13 yn y Ganolfan bu cyfarfod o 'Gawl a Chân' wedi ei drefnu gan y pwyllgor. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor am eleni. Wedi cawl a phaned cafwyd noson o ganu. Llywyddwyd gan Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian. Cyfeiliwyd gan Miss Olwen B. Roberts, Ty'r Ysgol. Cafwyd eitemau mewn canu a darlleniad o farddoniaeth gan Mrs Betty Lloyd Roberts a Mr Evan B. Roberts. Bu cydganu gan yr aelodau. Mwynhawyd y noson yn fawr. Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs O.R. Williams, 2 Bro Elidir ar eu hymadawiad i Rydfadog, Deiniolen. Pasiwyd i gynnal Cyfarfod Undebol y flwyddyn nesaf. Tuag at hyn gofynnir i'r aelodau ddod at ei gilydd i drefnu pwyllgor yn y dyfodol agos. Dymuniadau gorau i Mrs Mary Elen Jones, Ty'n Fawnog ar ei phen-blwydd yn 88 mlwydd oed ar Ebrill 7 eleni.

PROFEDIGAETH: Drwg gennym fel ardal glywed am farw Mr Leslie Otter, Afallon, Dinorwig gynt. Ychydig dros wyth mis yn ôl aeth i Lincolnshire i fyw wedi bod yma am ddeng mlynedd. Cydymdeimlwn â'i weddwr Mrs Constance Otter yn ei phrofedigaeth ac â'r teuluoedd cysylltiol.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Andrew Griffiths, Tan y Bwlch, ar fod yn fwy o dain a nain. Ganwyd merch fach, Awen, i Valerie a lolo Griffiths, Llanberis, y mab a'i wraig. Pob dymuniad da iddynt.

O BANTRI BETH



CACEN DYDD SUL

Cacen ffrwythau hen-ffasiwn yn arbennig ar gyfer te dydd Sul, neu unrhyw ddiwrnod arall o ran hynny! Cynnwys:

12 owns o ffrwythau sych, cymysg
4 owns o geirios wedi eu torri
2 owns o 'mixed peel' wedi eu torri
4 owns o ddatys wedi eu torri'n fân
6 owns o siwgr brown
4 owns o fenyn

DIOLCH: Dymuna Valerie a lolo Griffith, Maes Padarn, Llanberis ddatgan eu diolch i'w teulu a ffrindiau yn ardal Dinorwig a Deiniolen am y llu cardiau, a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach Awen, ar Fawrth 8.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

ADRAN YR URDD PEN LLYN: Aeth nifer fawr o blant i gystadlu i'r eisteddfod gylch yn ysgol Brynrefail Chwefror 22 a braf iawn oedd clywed enw'r adran yn cael ei galw o'r llwyfan am y tro cyntaf. Bu cystadlu brwd ond fawr o lwyddiant y tro hwn. Dyfal donc piau hi.

Chwefror 24 mwynhaodd y plant gwmni Mr Leslie Larsen o Benisarwaun yn dangos sleidiau am yr ardal. Cafodd y plant stôr o wybodaeth ganddo ac mae'n amlwg fod pawb wedi mwynhau eu hunain ac wedi dysgu cryn dipyn pan oeddynt yn ymateb i'r cwis ar y diwedd.

Oherwydd bod nifer o rieni ac ardalwyr wedi methu gweld y plant yn cystadlu yn yr eisteddfod cawsom noson o Gawl a Chân nos Lun Mawrth 3 a'r plant yn arddangos eu cynnyrch. Roedd yn noson hwyliog a'r cawl yn flasus iawn.

Noson yn y pwl nofio yn y Ganolfan Hamdden gafwyd nos Lun, Mawrth 10 a gorffen cyn y gwyliau gyda chwis. Bydd yr adran yn ailgyfarfod wedi'r gwyliau.

Y CARNIFAL: Cyfarfu pwyllgor y Carnifal nos Lun, Mawrth 17 i ddechrau trefnu gweithgareddau wythnos y carnifal eleni. Ceir mwy o fanylion yn y dyfodol.

CLWB PÊL-DROED DAN 16: Colli fu hanes y tîm mewn dwy gêm yng Nghynghrair Gwryfai yn erbyn Caernarfon United a Mountain Rangers, ond ennill mewn gêm bwysig iawn, sef rownd gyntaf gêm gyn-derfynol Cwpan Jimmy James. Pob llwyddiant i chwi hogiau yn y rownd nesaf.

COFION: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Elizabeth Davies, Noddfa sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

CLWB MAMAU a MERCHED IFANC: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan Gymdeithasol nos Fercher, Mawrth 5. Y wraig wadd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail. Cafwyd arddangosfa o Grefftau Calon Lân, sef nwyddau

Llond llwy de o 'mixed spice'
½ llond llwy de o bicarbonate o soda
½ peint o lefrith
12 owns o flawd codi
2 wy

Rhowch y ffrwythau, ceirios, peel, datys, siwgr, menyn, spice, bicarbonate o soda a'r llefrith mewn sosban. Dowch a'r cyfan i'r berw, a gadael y cyfan ar wres gweddol am tua pum munud. Yna, gadael i glaeau.

Cymysgwch y blawd codi a'r wyau i mewn, a thywallt y cyfan i dun cacen crwn tua 8" wedi ei iro'n dda.

Coginiwch y cyfan mewn popty gwres Nwy 3/325°F/260°C am tua tri chwarter awr, ac yna gostyngwch y gwres i Nwy 2/300°F/150°C a'i goginio am tua 50 munud arall, neu nes bydd y cacen yn barod.

Amrywiaethau:

Yn hytrach na defnyddio datys, gellwch gynnwys eirin gwllannog, neu ffigys; dim ond gwneud yn siŵr eu bod wedi eu torri'n weddol fân. Does dim angen eu socian cyn berwi; mae'r berwi ei hun yn ddigon i'w meddalau.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

hardd a lliwgar o waith Mrs Jones a'i merch Anita. Rhoddwyd y te gan Mrs Avril Jones a Mrs Wendy Roberts a gwobr y raffl gan Mrs Margaret Williams a Mrs Ann Jones.

CYDYMDEIMLAD: Mewn ysbyty yng Nghaer bu farw Mrs Mary Parry Wilcox, Parc Upton, Caer. Roedd yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs H.P. Williams, Bodiastyn, a chwaer i Mrs Enid Lewis, Lerpwl a Mr Cecil Williams, Hafan Eilan, Llanrug. Cydymdeimlad llwyr i'r teulu yn eu profedigaeth chwerw.

CLWB POBL Y CWM: Cyfarfu aelodau'r Clwb dydd lau, Chwefror 20 ond oherwydd i'n gŵr gwadd ymddiheuro na allai fod yn bresennol, rhoddodd un o'r aelodau, sef Mr Richard Roberts, Bryn Gro sgwrs ar ei brofiadau fel carcharor rhyfel yn yr Almaen. Gorfu iddo weithio am gyfnod helaeth mewn mwynglawdd halen a hynny dan awdurdod mileinig. Diolchwyd iddo gan y Llywydd. Rhoddwyd y te gan Mr Tom Owen, 1 Maes Gerddi. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Jones, Seiont House.

Dydd lau, Mawrth 6 croesawyd Mr Duncan Brown gan y Llywydd. Brodor o'r Waunfawr yw Mr Brown ac yn aelod o staff Gwarchodfa Natur y Sir. Rhoddodd sgwrs ar ei waith amrywiol a diddorol, ei ofal am bob math o adar sydd yn ymgyrtu ar lynnoedd a glannau môr, a rheoli difrodiant y glannau. Roedd lluniau o'i weithgareddau yn ychwanegu at ein diddordeb yn ei sgwrs. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Hughes, Bryn a Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd, a'r raffl gan Mrs P. Roberts, Penrallt. Diolchwyd i bawb gan y Llywydd, Mr Llew Hughes.

COFIWCH AM GYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO

NEUADD YSGOL GWAUNGYNFI
DEINIOLEN
Nos WENER, EBRILL 4
am 7.00

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DIOLCH: Dymuna Malcolm Allen ddiolch i'w gyfeillion, cymdogion, perthnasau, prifathro, Mr Thomas ac athrawon Ysgol Brynrefail Llanrug am y cardiau a'r llythyrau yn ei longyfarch ar dderbyn ei gap pêl-droed llawn cyntaf i Gymru.

Dymuna Ceirion Thomas, 4 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont ddiolch i'w fam a'i dad, teulu, ffrindiau a chymdogion oll am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 4.

Dymuna Owen Hughes, Erw Fair ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ei brofedigaeth sydyn o golli ei briod, Nellie ac am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn. Diolch i'r Parch Erfyl Blainey a'r Parch Trefor Lewis am eu gwasanaeth, hefyd y meddyg teulu a Nyrs Williams am eu gofal. Diolch hefyd i Myrddin Pritchard, Llanberis, trefnydd yr angladd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Noson Lawen i'r henoed ac aelodau o Glwb Elidir gan Sefydliad y Merched ar Mawrth 3. Cafwyd noson ddifyr iawn gan Barti Clychau'r Grug, Llanrug yn ein diddor. Croesawodd Mrs Rita Parry Jones, y llywydd, y parti a diolchwyd iddynt hefyd gan Mrs Jones a Mrs J. Eirlys Williams, yr is-lywydd.

Diolchwyd i'r parti a'r Sefydliad gan Mrs Miriam Jones ar ran Clwb Elidir. Diolchodd un o'r aelodau'r parti hefyd i'r Sefydliad am y croeso. Cafodd bob un o'r oedolion raffl gan y Sefydliad. Diolchwyd i'r gofalwr Mr E. Williams ac i Mr Ieuan Williams am gludo'r aelodau.

Carem ddiolch i Mrs Margaret Roberts am ei gwasanaeth yn y gegin. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 7 pryd y disgwylir Mrs Beti Marshall i ddangos sleidiau o Goleg Denman.

PLAID CYMRU: Clwb Cant mis lonawr - £10: Mr Albert Parry, 45 Pentre Helen; £8.50: Mrs Awen Roberts, 26 Pentre Helen. Mis Chwefror - £10: Miss L.M. Lewis, 11 Maes Gwylfa; £8.50: Mrs Mary Jones, 4 Y Bwthyn. Mis Mawrth - £10: Mrs Ruth Jones, 94 Pentre Helen; £8.50: Miss Margaret Jones, Foel, Dinorwig.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi yn Neuadd yr Ysgol nos Wener Mai 2 am 7 o'r gloch. Mynediad - oedolion, 25c; plant a phensiynwyr, 15c. Yr elw at Eisteddfod Gadeirion Gwaun Gynfi.

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 220 am fis Mawrth - £20: Mr G. Oliver Jones,

Tŷ Gwyn, Deiniolen; £15: Mrs M. Evans, Maes y Dref, Deiniolen; £10: Mr S.H. Roberts, 85 Pentre Helen, Deiniolen.

CYFARFOD CYHOEDDUS: Roedd Neuadd y Ganolfan yn rhwydd iawn ar gyfer yr ail Gyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mawrth 4, i ystyried ymhellach y posibilrwydd o wella ansawdd bywyd yn ein pentref. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Parri, Cynefin, a diolchodd i'r rhai oedd yn bresennol am eu cefnogaeth a'u diddordeb.

Cyflwynwyd atebion ysgrifenedig i'r amrywiol ymholiadau yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus blaenorol, a chafwyd sylwadau pellach ar y rheini. Diolchwyd i'r Clwb Snwcer am agor eu drysau i'r merched a gwerthfawrogwyd gyfraniad ariannol hael y Clwb er hyrwyddo gwaith y panel.

Derbyniwyd pedwar awgrym yn y Blychau Awgrymiadau ac fe'u cyflwynwyd am sylw pellach i'r panel. Bu trafod bywiog ar y priodoldeb o ymestyn y Ganolfan bresennol, neu i godi Canolfan arall aml-bwrpas ar safle newydd. Ymddiriedwyd i Bwyllgor Rheoli y Ganolfan i chwilio i mewn i'r posibiladau yn hynny o beth, gan adrodd yn ôl, maes o law, i Gyfarfod Cyhoeddus arall.

Pwyswyd i wahodd Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Arfon, ddod i gyfarfod aelodau'r panel i gyfnewid syniadau ar agweddau yn ymwneud â chynllunio yn ein pentref, ac i geisio arweiniad y Swyddog hwnnw ar ffynonellau y gellid troi iddynt am gymorth ariannol.

Gyda golwg ar dwtio a thacluso strydoedd y pentref cytunwyd i argymhell Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen i noddi cystadleuaeth "Stryd Daclusaf" yn y pentref.

Gelwir Cyfarfod Cyhoeddus eto tua chanol neu ddiwedd y gwanwyn.

GENEDIGAETH: Llonyfarchiadau i Percy a Jacqueline o Benygroes ar enedigaeth merch fach, chwaer i Iwan Wyn.

Dymuna Jacqueline (Wardle) ddiolch o galon i'w holl ffrindiau yn Neiniolen am y rhoddion a'r holl gardiau a dderbyniodd ar ôl dod gartref o'r ysbyty.

CLWB ELIDIR: Cyfarfu'r uchod yn y Clinic ar Fawrth 11. Yn absenoldeb y llywydd, Mrs C. Marren; arweiniwyd y gweithgareddau gan yr is-lywydd, Mrs Miriam Lewis. Pasiwyd cydymdeimlad â theulu y ddiweddar Mrs Nellie Hughes, Erw Fair, hefyd â theulu y ddiweddar Mrs J. Williams, Tai Caradog yn eu profedigaeth. Estynnwyd croeso i Mrs Betty



Llun o 'Special Constables' Deiniolen Awst 1942. Dau ohonynt sydd yn fyw heddiw sef Mr John Griffiths, Cae'r Bythod a Mr Lynes, plisman y pentref yr adeg honno. Pwy sy'n gwybod mwy o hanes y llun? Diolch i Mr Arthur Owen, Stryd Newydd am fenthyg y llun.

Hughes, Cringae, fel aelod newydd. Anfonwyd cofion at y llywydd sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Hefyd Mrs Ethel M. Roberts, Mrs Mary Thomas a Mrs Dilys Jones a fu yn yr ysbyty. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Katie Lewis, a Mrs Nancy Rowlands. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Hughes, Mrs Jennie Evans, Mrs Grace Williams a Miss Moeller. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mary Hughes ac fe'i henillwyd gan Miss Kathleen Jones. Treuliwyd prynhawn difyr yn gwrando ar Mrs Megan Morris, ysgrifennydd y clwb, yn darllen hanes Mrs Fanny Crosbie, yr Emynyddes ddall ac mae'r aelodau yn dra diolchgar i Mrs Morris am lenwi'r bwlch ar fyr rybudd.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Lena Ann Rowland, SRN, 12 Pentre Helen ar lwyddo dy arholiad RMN. Pob llwyddiant iti yn y dyfodol ac ar dy waith newydd yn Ysbyty Gwynedd. - Oddi wrth Mam a Dad, Gwen a Myrddin; Gwilym a Dave.

MERCHED Y WAWR: Noson o Gawl a Chân oedd ein cyfarfod y mis hwn a bu'n llwyddiant mawr. Paratowyd y wledd gan Mrs Megan Morris a Mrs Medwen Griffiths. Mrs Miriam Lewis oedd y pianydd. Y llywydd oedd Mrs J. Eirlys Williams. Llonyfarchwyd y ddau barti canu o Ysgol Gwaun Gynfi ar ddod yn gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd. Hefyd Sion Wyn Hughes ar ddod yn gyntaf am chwythu'r corn. Dymunwn yn dda iddynt oll yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Methesda. Dymunwyd llwyr iachâd buan i'n hysgrifenyddes Mrs Dilys Hughes sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Penderfynwyd gofyn i'r holl aelodau gyfrannu 50c yr un at yr Urdd. Enillwyd y raffl (rhodd Miss Kathleen Jones) gan Mrs Beti Jones, Dinorwig.

Chwarel Dinorwig dan eira, Chwefror 1986

Mae'r defaid yn breffu o bell, yn y parcia', Wrth grafu y gefnen am fwyd yn yr eira; A Chwarel Dinorwig yn fud, ond byggythiol! Bron anghofio y rhai fu'n ei gweithio mor ddyddiol.

Bu hon yn rhoi addysg, yn union fel athrawes, Weithiau yn canmol, tro arall yn gnawes! Yn rhoi bywyd i ardal, a gwaith i ddynoliaeth, A wedyn doi rwb, a sioc a marwolaeth!

A'r gweddwon mewn galar yn magu eu teulu, Ar gardod a gorthrwm mewn of y 'bwmbell'; 'Roedd gwaith y chwarelwr yn gywrain a chrefftus, A'i 'fargen' a'i 'wal' oedd mewn trefn ac yn ddestlus.

'Roedd aberth ei lafur mor gyson yn fisol Yn rhoi aur ym mhoced 'Syr Meic' yn y Faenol! Ond mae hwnnw heddiw, wedi derbyn ei ddedfryd, Yn gaeth yn y gro, mor isel ei ysbryd.

A heddiw gwaith trydan sy'n mherfedd y chwarel, A'r bonciau yn ddistaw, gyda rhwd ar y drafel; Mae 'brain Brenin Arthur' yn dal yn y clogwyn, Ac anodd yw heddiw i hogia' gael crystyn.

Hen Chwarel Dinorwig, mor drist dan yr eira, Rhoddaist gysur i lawer, mor 'hael' dy sledeidia'; Ond cofiaf rhai'n diodde' o'r llwch a'r diciâu, Ac 'rwy'n diolch i Dduw fod y 'bitch' wedi cau!

John V. Morris

LLUN Y BWS (Eco Mawrth)

Mae Mr Gwilym Roberts, Chester House, Deiniolen (Tal-y-waen gynt) yn dweud mai Bws Rhiwen ydyw (Rhiwen Motors) tua 1928. Y gyrrwr medd Gwilym yw Bob Williams, Afon Goch. Yn sefyll o flaen y bws mae Robert Rowlands, Cynfi Teras gynt (Robin Rol). Ni wya'r pwy yw'r lleill.

**OSMOND
SHAW
DEINIOLLEN**

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
**GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545**

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**
Crefftau llechi: arlunwaith, claciau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
Arddangosfa o hen luniau chwarel.
**HEFYD YN SIOF
FFYN A CHERRIG
STRYD FAWR, LLANBERIS**

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

DEWI SANT

Nid oes rhyw lawer o hanes Dewi Sant ar gael, ond nodir y Cyntaf o Fawrth fel ei ddydd arbennig, sef Nawddsant Cymru. Bu fyw yn y Chweched Ganrif. Gwnaeth y Pabyddion ef yn Sant chwe chanrif ar ôl iddo farw. Dywedir mai mab i Sant, brenin Ceredigion ydoedd, a'i fam oedd Non, lleian (nun). Dywedir iddo gael addysg dda. Sefydlog lawer o Eglwysi yn Lloegr a Chymru, yn y De. Ni wnaeth ddim yn y Gogledd, yn y De y gweithiodd. Priodolir llawer o wyrthiau iddo a dywedir mai yn wyrthiol y'i ganed. Ai onid gwyrrth yw pob genediaeth?

Ef a sefydlodd Eglwys Tŷ Ddewi, ac ef oedd ei hesgob cyntaf. Sonir amdano'n awr mwy nag erioed oherwydd fod Cymru'n deffro i geisio hunan-lywodraeth. I fyny bo'r nod!

Englyn y Llwybr Troed

Chwi gofiwch i mi ofyn yn rhifyn Chwefror eleni oedd rhywun yn cofio pa bryd ac ymhle y cafodd J.T. Jones y wobwr gyntaf am yr englyn Y Llwybr Troed. Dyma'r englyn eto: 'Rwy'n hen a chloff, ond hoffwn - am unwaith

Gael myned, pe medrwn
I'm bro, a rhodio ar hwn,
Rhodio, lle gynt y rhedwn.
J.T. Jones

Derbyniais ddau lythyr personol. Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn am y ddau. Dyma nhw:

Elidir,
40 Cambrian Avenue,
Vicar's Cross,
Chester CH3 5LG.
Mawrth 3, 1986.

Annwyl Mrs Williams,

Dyma fi newydd ddarllen eich tudalen yn Eco'r Wyddfa am fis Chwefror, a gweld eich cais am wybodaeth am englyn J.T. Jones i'r Llwybr Troed.

Rhyw ddeng mlynedd yn ôl cyhoeddodd 'Tŷ Ar Y Graig' trwy Harri Parri a William Owen ar ran 'Clwb y Garreg Wen' lyfr hynod o ddiddorol a'i deitl 'Sôn Dynion Amdanynt'. Mae ynddo erthygl gan fy niweddar frawd, R.D. Jones, Penmorfa, ar Mr J.T. Jones ac ynddo mae'n dyfynnu'r englyn yma ac yn dweud mai yn 1943 y penodwyd J.T. Jones yn brifathro Ysgol Porthmadog ac mai yn yr un flwyddyn yr enillodd yr englyn hwn yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor.

Mae Eco'r Wyddfa yn hynod o ddiddorol a gwerthfawr a diolch am eich ysgrifau chwithau, a phawb bob mis ynddo.

Gyda chofion gorau,
John Emrys Jones.

Llythyr Barddas

Fel hyn y mae llythyr Dafydd Islwyn, Ysgrifennydd Cymdeithas

Cerdd Dafod yn darllen:

19.2.86

Annwyl Mari Lewis,

Mae'n rhaid i mi sgwennu atoch i ddiolch i chwi o waelod calon am eich geirada i ni Y Gymdeithas Gerdd Dafod yn eich colofn 'Y Tŷ A'r Teulu' yn 'Herald Môn' dydd Sadwrn, 8 Chwefror 1986. 'Rydw i wedi torri yr erthygl allan ac wedi ei gludo yn Nyddiadur Y Gymdeithas Gerdd Dafod. Diolch yn fawr. Caiff ei chadw am byth.

Neithiwr darllenais dau rifyn diwethaf o 'Eco'r Wyddfa'. Yn un Chwefror eleni 'rydych chi yn holi pa bryd ac ymhle y cafodd J.T. Jones y wobwr gyntaf am yr englyn 'Y Llwybr Troed'. Gan fod yr englyn hwn yn cael ei ddweud yn aml gen i, mae'r wybodaeth amdano gen i ar ben fy mysedd. Yn y Genedlaethol ym Mangor yn 1943 y cipiodd J.T. Jones y wobwr gyntaf. 'Roedd yn byw yn Snowdon View, Bangor ar y pryd. Cystadlodd 237 neu'n hytrach yr oedd 237 o englynion yn y gystadleuaeth. Dywedodd y beirniad D.T. Davies: "Syfrdanodd yr englyn fi ar y darlenniad cyntaf a'i symlwydd a'i uniongyrchedd. Dilynodd fi'n ddiollwng drwy'r ugeiniau a'r cannoedd o englynion a ddaeth i law." etc...

Gwerthfawrogaf eich cefnogaeth i Barddas yn fawr iawn Mari Lewis. Diolch am eich cyfraniad i ni fel cenedl ers blyneddau.

Cofion cywir,
Dafydd Islwyn.

Y Casglwr a Barddas

Byddaf yn derbyn yn rheolaidd y rhan fwyaf o bapurau a chylchgronau Cymraeg a phob un nas gallaf fforddio i'w prynu byddaf yn mynd i'r llyfrgell i Gaernarfon i'w darllen. Mae'n ddyletswydd arnom i fanteisio ar y llyfrgelloedd a chael benthgyl llyfrau o bob math ac o wahanol feysydd. Gwyn ein byd!

Ddeng mlynedd yn ôl ym Mhrifwyl Aberteifi fe benderfynwyd sefydlu dau gylchgrawn newydd - Y Casglwr a Barddas. Mae'r ddau yn fyw ac iach ac yn wynebu eu degfed pen-blwydd eleni. Erbyn hyn mae'r Casglwr gyda chylchrediad o fwy na mil a Barddas wedi pasio'r saith cant.

Yn y Casglwr rhif 27 sef Rhifyn

Nadolig 1985 dywed y Golygydd John Roberts Williams, 18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon, "Dyma ni gan mlynedd wedi geni Bob Owen Croesor yn medru parhau i gynnig papur ei Gymdeithas i chwi sy'n ffyddloniaid am y degfed tro heb godi'r un ddimau yn y pris.

Y mae'r tâl dyledus o ddwy bunt i'w hanfon i Richard Lewis, Annedd Deg, Penrhif, Bow Street, Aberystwyth, Dyfed.

Caiff aelodau newydd y rhifyn presennol (Nadolig 1985) am ddim."

Anfonir Y Casglwr i'r aelodau drwy'r post dair gwaith y flwyddyn, sef yn ystod wythnos y Pasg, wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ac wythnos y Nadolig.

Yr wyf yn adnabod Golygydd Barddas sef Alan Llwyd, Pen y Bryn, Felindre, Abertawe, Gorllewin Morgannwg 5AS TYL hefyd, ac yn adnabod Ysgrifennydd Barddas sef Dafydd Islwyn, Teifi, 106 Heol Llancayo, Bargoed, Canol Morgannwg, yn dda iawn.

I ddod yn aelod o Gymdeithas

Barddas rhaid anfon pum punt bob blwyddyn a gwneud eich sic yn daladwy i 'Y Gymdeithas Gerdd Dafod'. Anfonwch eich sic i Alan Llwyd neu gallwch alw yn eu swyddfa mewn pabell ar gae yr Eisteddfod Genedlaethol. Talu yn y babell y byddaf fi bob Awst.

Byddwch wedyn yn derbyn Barddas drwy'r post bob mis am flwyddyn. Felly pum punt y mae deuddeg rhifyn o Barddas yn gostio a'r cludiant post yn rhan o'r fargen. Y mae ysgrifau, trafodaethau ar farddoniaeth, portreadau, adolygiadau, cerddi ac englynion newydd i gyd yn Barddas bob mis. Mae'n wych!

Y mae'r Casglwr a Barddas yn cael eu cyhoeddi trwy gymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Rhif Tystysgrif Cofrestredig gan y Comisiwn Elusennau i Barddas yw 511899. Anhygoel ynte? Y mae Peredur Lynch (gyda chysylltiad â Llanrug) yn aelod o Bwyllgor Gwaith Barddas, ac erbyn hyn yn fardd ifanc o fri ac yn glod i'w dad y Parch Evan Lynch a'i ddiweddar fam Mrs Beryl Lynch.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gwledfa (871223)

Ychydig iawn o newyddion a ddaeth i law y mis yma, a gofid i mi wrth fynd o amgylch oedd clywed un yn dweud nad oedd eisiau'r Eco ddim mwy "am nad oes byth ddim am Brynrefail ynddo fo".

Gan fy mod eisoes wedi hysbysu'r golygyddion fy mod innau yn gorffen fel gohebydd pentref a phrif ddosbarthwr, teimlaf efallai beth cyfrifoldeb am hyn - mewn wyth mlynedd mae'r nifer a ddosberthir ym Brynrefail wedi gostwng o 100 i 52 y mis.

Ond yn ôl i geisio ateb y cwestiwn ynglŷn â diffyg newyddion ym Brynrefail. Nid cyfrifoldeb y gohebydd yw 'gwneud' newyddion, ond yn hytrach derbyn newyddion oddi wrth eraill. Yn ogystal â newyddion, mae lle hefyd i storïau ac erthyglau fel y gwelir o fis i fis, ac mi gredaf fod defnydd llawer stori ac erthygl mewn pentref mor ddiwylliedig.

Y neges felly yw - eich papur chi'r darllenwyr yw'r Eco - a gennych chi mae'r deunydd i'w drosglwyddo i'r gohebwyd a'r golygyddion. Mae'r Eco wedi dal ei dir yn wyneb rhagfarn ac anawsterau ac mae'n awr yn rhan deilwng o'n diwylliant. Mae angen wynebau a syniadau newydd o bryd i'w gilydd ac yr wyf yn hyderus y daw rhywun i gario'r gwaith ymlaen ym Brynrefail.

CLWB Y MAMAU: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Anita Jones, Cae Coch. Rhoddwyd anrheg y mis gan Val Davies, a Sheila Williams fu'n lwcus o ennill. Darparwyd y te gan Mair Williams a Jinnie Roberts.

PEN-BLWYDD YN 18: Llongyfarchiadau i Kathy Williams, Marino, ar gyrraedd y garreg filltir yma ar Fawrth 13. Dymunwn bob llawenydd a llwyddiant iddi yn y dyfodol.

YDI SMOCIO'N STWMP ARNOCH CHI?

Yn ddiweddar cyhoeddwyd 'The Big Kill', pymtheg cyfrol o adroddiad ar farwolaethau ac afiechydon cysylltiedig smocio. Fe'i paratowyd gan y B.M.A. a'r Cyngor Addysg Iechyd.

Dyma rai o'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg:

Mae 230 o ysmygwyr yn marw bob dydd yng Nghymru a Lloegr.

Mae 1 o bob 7 o farwolaethau'n gysylltiedig â smocio.

Mae 108,000 o bobl mewn ysbytai ar hyn o bryd yn dioddef oherwydd effeithiau smocio. Maent yn costio £111,000,000 (ie £111 miliwn) i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.

Mae 22 y cant o blant ysgolion uwchradd yn smocio. (Cynnydd o 3 y cant ers 1982.)

Mae bron i chwarter genethod 14 i 15 oed yn smocio.

Mae plant sydd â'u rhieni yn smocio yn llawer mwy tebygol o ddechrau smocio eu hunain.

Pwysleisia'r adroddiad fod hysbysebu smocio yn dylanwadu'n gryf ar blant ifanc - a hwnnw'n aml yn 'hysbysebu cudd' - yn enwedig gan gwmnïau sy'n noddi gwahanol gystadlaethau a phencampwriaethau mewn chwaraeon.

Mae'r adroddiad yn argymhell gwahardd hysbysebu a hybu

uniongyrchol ar smocio dros gyfnod o dair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, dylid rhoi gwaharddiad llwyr ar hysbysebu smocio.

Yng ngeiriau'r adroddiad:

"Dylai'r diwyddiant baco farw - nid ei gwsmeriaid."

DRAENOG



Un o argymhellion pwysigaf adroddiad 'The Big Kill' yw y dylai llawer mwy o siopwyr gael eu herlyn am werthu sigarets i blant dan oedran.

GAIR I GALL!

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



GWAITH A GORFFWYS

Mi rydw i wedi treulio digon o amser, Duw a wŷr yn chwilio am anturiaethau ar hyd ac ar led, a methu dŵad o hyd iddyn nhw, ond erbyn gweld, pan mae rhywun leia yn ei disgwyl nhw, yr adeg honno mae'n nhw yn cyrraedd.

Roeddwn i wedi dychmygu mai unwaith y baswn i yn dŵad i fyw ar yr allt 'ma, y basa fy mywyd i yn dechrau tawelu, ond fel arall yn hollol mae hi. Mae 'na rhyw greddur yn y drws 'ma bob yn ail diwrnod bron, ac os nac ydy o yn cynnyg ail doi fy mwthyn i, mae o'n trio gwerthu polisi i mi ar fy mywyd, neu gabait, ac mi ddaeth yma griw ers dim llawar yn pryderu yng nghylch cyflwr fy ngrefydd i, ac yr oeddwn nhw yn darogan, os na faswn i'n diwygio fy ffordd o fyw, na fasa 'na fawr o groeso yn fy nisgwyl i yr ochr bella. Ond yr un y ces i fwy o drafferth i droi 'i drwyn o oedd yr hen foi ddaeth i ofyn a oedd gen i ddiddordeb mewn swabio gwragedd.

"Oes gin ti rhywbath gwell i'w gynnig na beth sy' gin i yn barod?" medda fi wrtho fo yn y diwadd.

Ond doedd o ddim wedi cael amsar i hel y ceisiada i gyd medda fo. Beth bynnag mi rydw i wedi rhoi fy enw i lawr, ac mae o am yrru catalog. Ond mae o yn hir iawn yn cyrraedd.

A rhyw ddiwrnod pan ddois i adra o saethu piod yn y gwaelodion 'na, roedd yna rhyw hogan bach reit ddel yn ista o dan y cloc yn fy nisgwyl i. A dyma hi'n gofyn ar rhyw sgwrs, faswn i'n hoffi mynd ar y telifision. Ond er ei fod o'n fentar rydw i wedi ei ddeisyfu wneud ers pan oedd i'n ddim o beth, wyddwn i erbyn hynny ddim beth i'w ddweud. Mae hi'n ddigon hawdd i rhyw hen swadi 'run fath â fi gael ei gyfareddu gan y petha ifanc 'ma heddiw a syrthio i amryfusedd ydych chi'n gweld. Mi allasan reit hawdd fod ar ôl eich eiddo chi - fedrwyd chi ddim deud.

Beth bynnag, yn y diwadd, rhag ei siomi hi a hitha wedi dwad mor bell, dyma fi'n deud yr awn i, ond mi ddyfaraes y munud nesa pan ddechreuodd hi egluro beth yr oeddwn nhw yn fwriadu ei wneud. Roeddwn nhw yn mynd i ddwad â llond 'charbang' o bobol i'r tŷ 'ma, a does 'na fawr o le yma ar y gora, erbyn ein bod ni wedi dwad â phentwr o ddodrefn hefo ni; methu gollwg gafael, ac mi es i bryderu am y cloc mawr, sydd wedi mynd yn ddidor ers tros ganrif - hynny ydy, ond yr adag honno yr oeddwn ni yn 'madael i Sir Fôn am gyfnod. Roedd o wedi ei rwymo ar wastad ei gefn ar ben rhyw fan, ac ar y Bont Grog dyma fo'n taro hannar nos, er nad oedd hi ond chydig wedi naw yn y bora. Os yr ydych chi'n ofargoelus, beth nad ydych chi'n ddim, ella y gwelwch

chi rhyw arwyddocad yn hynny. Ac mi roeddwn i ofn i'r bobol telifision 'ma ei ddimchwel o hefo'u gêr a'u tacla.

Ond pan ddaeth y diwrnod o'r diwadd roeddwn i wedi gwisgo amdana yn reit dwt a blacio fy sgidia. Mae gen i siwt - wn i ddim soniais i o'r blaen - wedi ei theilwrio yn arbennig ar gyfar cnebryna, a choeliach chi ddim, ond pan yr ydych chi yn dwad i f'oes i, mi rydych chi mewn un bob yn ail wythnos bron, ac fel yr oedd petha yn mynnu bod y diwrnod hwnnw, roedd pobol y telifision wedi gadael eu cerbyda yn un strîbad y tu allan i fy nhŷ i, ac yr oedd pobol Llanrug ddylw i'n wedi mynd i gario'r syniad fy mod i'n cael fy nghladdu, a phan es i i'r Coparet y dydd Gwennar hwnnw, dyma'r genod yn gollwng pob dim a rhedag i'r cefn, ac mi gawson drafferth i'w perswadio nhw ddwad oddi yno, medda nhw, nes iddyn nhw ddeall yn y diwadd fy mod i wedi mynd yn ddigon pell, ac yr oedd rhai yn darogan y basa fo yn siŵr o ddeud ar y difidends ddiwadd y flwyddyn. Wn i ddim wnaeth o ai peidio.

Wel, mi ddaeth pennaeth y criw telifision yma o'u blaenau nhw. Roedd ganddo fo locsyn, ac mi drwglicis i o ar ei union; hynny ydy, roeddwn i'n meddwl mai rhyw hen hipi oedd o wedi dwad i chwilio am gaws llyffant i wneud ei hun yn hurt, ac mi roeddwn i ar gyfyng gyngor agor iddo fo. Fedrwyd chi ddim gweld bai arna i chwaith. Mi ddalis un rhyw dro, a locsyn fel brws beudy ganddo fo, at ei geseilia yn fy mag spwrial i. Dydach chi ddim yn anghofio rhyw hen brofiada fel yna wyddoch chi yn enwedig yn fy oed i. Beth bynnag, wedi iddo fo ddwad i mewn a finna ddwad i'w nabod o,

roedd o yn hen siortyn hynod o ddiri dano, welsoch chi rîoed y fath beth, a'i amcan o yn dwad ar y blaen erbyn gweld oedd iro'r treilia fel petae, trio darganfod p'run ta'i ar y trapis ta'r rhaff den oeddwn i'n perfformio ora. 'Chydig oedd o yn ddirnad fy mod i wedi troedio honno am y rhan fwy o f'oes, ac mi roedd o wedi gwaredu pan welodd o fy nheciall pres i, ond doedd ganddo fo yr un syniad beth oedd y daliwr cannyll frwyn yn dda. Wrth gwrs mi fedrwyd ddeall hynny. Mae o'n erfyn tebyg iawn ar rai edrychiada i'r efail honno fydda dentus Pengolwg yn stffio i bendraw cega pobol wrth roi ei benglin ar eu brestia nhw, pan fydda hi wedi mynd i'r pen arno fo chwmiad rhyw ddaint go bengalad.

Wedyn, mi aeth y dyn i ddarlith am hen betha a dechra datblygu ei thesis, a choelia i byth na ddeudodd o ar ryw sgwrs fod rhyw hen fodryb iddo fo yn tynnu anmdani o flaen pobol yn Ffair y Borth, neu lyncu tân, os nad oedd hi'n gneud y ddau, ac yr oedd o wedi mynd i gymaint o hwyl nes y bu raid i mi ei atgoffa fo yn y diwadd i ba bwrpas yr oedd o wedi dwad i ddechra, a bod ei ddilynwyr o, erbyn hyn, yn rhynnu ac yn fflabian eu breichia yn y lôn, a fo'i hun gafodd y weledigaeth yn y diwadd, diolch am hynny.

"Sut y basa hi tasa ni yn mynd allan i rhywla?" medda fo fel 'na.

"Eitha peth," medda finna ei gweld hi'n hemio tros y Clegir.

A dyna fu. Ac yr oeddwn i wedi cael rhyddhad, achos roedd y criw oedd yn y lôn, erbyn hyn, wedi hel ar stepan y drws yn sathru ar ei gilydd yn eu hawydd i ddwad i mewn, ac yr oedd yn dda gen i weld yr hogan bach ddel honno yn eu mysg nhw. Garw ydy rhywun ydach i yn ei nabod, mewn argyfwng. A ffrwd â nhw i lôn Pencaea, i'r fan yna o dan Dinas Dinorwig; y Caera Mawr chwadad ninna; hen gaer yr Ordovices fel y bydda Doctor John Williams yn eu galw nhw yn yr ysgol nos; rheiny fydda yn bystachu hefo'u harfa haearn i dyfu eu haidd cyntefig yn y gwaelodion yna yn yr oes a fu. Wn i ddim ydach chi wedi bod ar y Caera rhyw dro, mi ddylach fynd, tasa ddim ond i weld yr olygfa, ac wrth gwrs, wyddoch chi ddim beth allasach chi ddwad ar ei draws o. Mi gafodd Tomos Owen - dyna i chi un arall sy' wedi mynd - bedol gron yno rhyw dro, ond mi redodd i'w ben o. Mi ddechreuodd durio wedyn o ddiffri, ac mi gafodd hyd i

rhyw sgwâr haearn a nobia pres arno fo, ac mi aeth â fo ar moto Joni Huws bob cam i Fangor, i'r lle mae nhw yn arbenigo ar betha fel'na, ac mi fuo yna amryw o bobol reit glyfar wrth ei ben o hefo gwydra a phob math, ond wyddan nhw ar wynab y ddaear beth oedd o, a fasa neb wedi ffendio hyd y dydd heddiw am wn i, onibai i Twm ddigwydd sôn wrth rhyw forwyn oedd yn Nant Efa erstalwm pan oedd hi'n pasio hefo rhyw fuwch.

Hen haearn gwely oedd hi wedi'i osod i gau bwlch rhag rhyw heffrod ddwad trosodd oedd o, medda hi, ac mi ddyla honno fod yn gwybod. Roedd hi wedi cysgu arno fo yn ddigon amal - hefo un neu ddau na ddyla hi ddim, os 'gwir y gair sydd yn haeddu pob derbyniad' chwadad yr hen Lyfr Gweddi, cyn iddo fo gael ei ddarnio i selio tranc yr Eglwys yng Nghymru. Ond mi taflodd hynny yr hen Dwm. Fuo fo byth yr un fath wedyn, a fynta wedi meddwl yn siŵr ei fod o wedi darganfod tamaid o gerbyd rhyfal rhyw bennaeth go bwysig.

Ond does yna fawr ddiban i mi ddal ymlaen. Mi gewch ei weld o i gyd ar y telifision, a rhag ofn i mi hefyd dramgwyddo drwy ddwyn cam dystiolaeth am rhywun a hwnnw o natur ddialgar, fel un neu ddau rydw i wedi daro arno fo cyn heddiw. Os oes 'na rhywbath mae'r Politburo yn ei arswydo yn fwy na'r Bom, y gair sgrifenedig ydy hwnnw. Mi fasa yn helynt tasa un ohonyn nhw yn dwad i'r drws yma hefo coes caib a bygwth ei roi o ar fy ngwegil i cyn i mi gael cyfla i edrach drwy fy nghatalog.

Y GWALCH

Cymdeithas TAI ERYRI

Bwriadwn ychwanegu at ein rhestr o adeiladwyr yn Arfon, Môn a Dwyfor fyddai â diddordeb mewn prisio am Gytundebau o £15,000 hyd at £100,000. Hefyd dymunwn gael rhestr o wahanol grefftwyr i ymdrin â'r gwaith brys a chynnal a chadw. Am fanylion pellach, cysylltwch â Chymdeithas Tai Eryri

**Heol y Bedyddwyr
Penygroes Caernarfon
Ffôn: 881 588**



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP**



**Aelod o'r National
Association
of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.**

**Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.**

**MERCHED,
DYNION, PLANT!
I gael torri a thrin
eich gwallt
YN EICH CARTREF**

**CHERYL
WARD**

Mobile Hairdressing

9 Porth Gogledd

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis

870911

i drefnu amser

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Daeth blwyddyn gyntaf bodolaeth y Gymdeithas Hanes i ben gyda sgwrs hynod o ddiddorol yn Oriel Eryri, Llanberis gan y Dr Dafydd Roberts, Curadur Amgueddfa Lechi Gogledd Cymru. Fel un sydd wedi arbenigo yn hanes y diwydiant llechi, testun ei sgwrs oedd 'Y Chwarelwr a'i Gymdeithas'. Ceisiodd, gan ddefnyddio dyfyniadau o lenyddiaeth T. Rowland Hughes, Kate Roberts a Caradog Prichard ddangos y darlun o'r chwarelwr sy'n

cael ei dderbyn yn ddiamheuol gan Gymry heddiw. Ond yna, gan ddefnyddio adroddiadau swyddogol a chofnodion o achosion llys ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, dangosodd fel y mae'r darlun hwnnw yn aml yn un-ochrog, ac o bosibl, yn anghywir. Codi'r llen ar fyd y cysgodion yng nghymdeithas y chwarelwr a wnaeth, ac ennyn chwifryddedd ei gynulleidfa i wybod mwy! Yn dilyn ei sgwrs, cafwyd trafodaeth frwd, a llawer o'r aelodau yn cyfrannu.

ADRAN EFYRDIAU ALLANOL COLEG Y BRIFYSGOL BANGOR

Taith Archaeolegol i Ardal Rhydychen

Mae Adran Efyrdiau Allanol Coleg Prifysgol Gogledd Cymru yn paratoi taith i ymweld â rhai o brif henebion a safleoedd hanesyddol yn yr ardal o amgylch Rhydychen. Mae'r trefniadau yn cynnwys llety llawn naill ai ym Mhrifysgol Rhydychen neu Brifysgol Reading, a gellir gwarantu ystafelloedd sengl i bawb sy'n dymuno hynny. Bydd pris terfynol y daith yn cael ei bennu ar rif o 30 aelod, ond ni fydd yn uwch na £180. Bydd yr ymweliad yn parhau o ddydd Llun, Medi 1af hyd ddydd Sadwrn, Medi 6ed, eleni. Arweinydd y daith fydd John Ll. Williams, a gellir cael mwy o wybodaeth gan Mrs Nerys Hague, Adran Efyrdiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor.

Aduniad Blynnyddol - 1986
Cynhelir yr Aduniad Blynnyddol ar gyfer swyddogion, athrawon ac aelodau dosbarthiadau'r Adran Efyrdiau Allanol a'r W.E.A. yn y Theatr Ddarlithio, Prif Adeilad y

Celfyddydau, Ffordd y Coleg, Bangor ddydd Sadwrn, Mai 10 am 2.00 p.m.

Bydd dau anerchiad yng nghyfarfod y prynhawn - y cyntaf yn Gymraeg gan Mr Hywel Teifi Edwards, M.A. Uwch Ddarlithydd yn y Gymraeg yn Adran Efyrdiau Allanol Coleg y Brifysgol Abertawe; a'r ail yn Saesneg gan y Prifathro Eric Sunderland, M.A., D.Phil., Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor.

Ar ôl y cyfarfod, fe ddarperir te am 4.00 ac yn dilyn, gwahoddir yr aelodau i gyngerdd fer gan fyfyrwyr Dosbarth Allanol Cerddorfaol. Ni chaniateir mynediad i mewn i de ond â thocyn, ac er mwyn sicrhau bod darpariaeth gyflawn, dylid archebu tocynnau'n ddi-ymdroi. Pris tocyn te fydd £1.00, a gellir eu cael gan Gyfarwyddwr Adran Efyrdiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, neu gan Ysgrifennydd y W.E.A., 33 Ffordd y Coleg, Bangor.

WYDDOCH CHI?

Mae pawb yn credu fod Llanfair pwll gwyngyll... ac yn y blaen yn un o'r enwau lleoedd hwyaf yn y byd, ond wyddech chi mai yn Kansas, America y mae'r person gyda'r enw hwyaf wedi ei gladdu? Yn 1866 claddwyd Indiad yno gydag enw oedd yn cynnwys 182 o lythrennau. Roedd angen chwech o gerrig beddi i gofnodi ei enw a'i goffadwriaeth!

Englyn Coffa i'r Heliwr

Rhowch garreg deg a dau gi -
llwynog,
A lluniwch lun dyfrgi
Gafaelgar, a dau filgi
A charw hardd ar ei chwr hi.

Ai dyma'r fersiwn cywir? Pwy yw'r awdur?

YMUNWCH Â CHYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cymdeithas Hanes Fywioca' Cymru!

Cyfarfodydd bob trydedd nos Fercher yn y mis, ym mhob pentref yn ei dro

Pris £5: teulu. £3: Unigolyn mewn gwaith

£1: pensiynwyr, di-waith, plant a phobl ifanc

CYFARFOD 16 EBRILL 7.30 CANOLFAN Y WAUNFAWR

Sgwrs gan Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Bangor

CYFARFOD MAI 7.30 YSGOL GYNRADD LLANRUG

Recordio rhaglen radio 'Bric a Brac' (math o 'Antiques Road Show' Cymraeg) a'r Cyfarfod Blynnyddol

Ymhlith y cyfarfodydd eraill a drefnwyd mae ymweliadau â Gweledfan Chwarel Dinorwig, Archifdy Gwynedd a Phlasdy Glynllifon. Trip Archaeoleg. Darlithoedd. Sgyrsiau. Recordio Atgofion. Cinio Nadolig. Nosweithiau Difyr yng Nghwmni'r Aelodau.

AM FARGEN O FLWYDDYN (EBRILL '86 - MAWRTH '87)
YMUNWCH AR UNWAITH TRWY ANFON ARIAN NEU SIEC AT:
Yr Ysgrifennydd, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug,

Caernarfon (Ffôn: 5605) neu

Y Trysorydd, Moss Bank, Llanberis (Ffôn: 872242)

Bydd cyfle hefyd i ymuno cyn bob cyfarfod

YSGOL DOLBADARN 19....?



Llun gan un o ddarlennwyr yr Eco yng Nghwm-y-glo

LLANBERIS

SEFYDLIAD Y MERCHED:
Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng ngwesty Padarn Lake i ddathlu Gŵyl Ddewi. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Hannah Jones. Dymunwyd yn dda i Mrs Jean Elis yn ei chartref newydd yn Bethel. Rhoddwyd croeso'n ôl i Mrs Katie Griffith a oedd wedi bod ar ei gwyliau yng Nghnada.

Ein gŵr gwadd oedd Mr D Whiteside Thomas, Llanrug yn siarad am ddyfodiad y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis yn ystod y ganrif ddiwethaf. Diolchwyd iddo gan Mrs Helen Morris.

DIOLCHIADAU: Dymuna Staff y Clinic ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Clinic ar Fawrth 5. Calonogwyd ni oll gan haelioni'r ardal.

Dymuna Gareth a Christine Jones, 12 Llawnen Isaf ddiolch o galon i baeb am bob caredigrwydd a dderbyniodd Gareth tra oedd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i Staff y Clinic.

Dymuna Vera Griffiths, Llwyn Piod ddiolch i bawb a fu mor garedig a haelionus tuag ati pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i John, mab Mr a Mrs John Pritchard, 11 Stryd Ceunant a Gwyneth, merch Mr a Mrs Tecwyn Evans, 17 Stryd Goodman ar eu dyweddïad ar Fawrth 14.

DIOLCH: Dymuna Valerie a lolo Griffith, 85 Maes Padarn ddatgan eu diolch am y dymuniadau da, cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Awen, ar Fawrth 8.

CROESO ADREF: Croesawn Dylan, mab Mr a Mrs E.W. Humphreys, 49 Dôl Elidir sy adref am seibiant bach o Goleg Cerdd Militaraidd Netherhall, Twickenham. Dymunwn y gorau iddo yn ei yrfa.

YN EISIAU

Bag Golff i ferch. Ffôn:
Llanberis 870634.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Cyfras Clasurol yr Academi:
Ysgrifeniadau Byrion Morgan Llwyd: P.J. Donovan (Gol.).

Gwasg Prifysgol Cymru ar ran yr Academi Gymreig. £4.95

Cyrol o weithiau byrion pwysicaf Morgan Llwyd a dau o'i gyfieithiadau.

Pennar Davies, **Llais y Durtur.** Gwasg Gomer. £2.95

Saith o straeon byrion.

Beryl Steeden Jones, **Bendramwnwgl.** Cyhoeddiadau Mei. £1.00

Cyrol i blant bach, yn adrodd hanes bachgen bach drwg o'r enw Ben Dramwnwgl.

Bill Parry, **Gwaed a Thân.** Gwasg Gwynedd. £2.95

Cyrol sy'n adrodd hanes Byddin yr Iachawdwriaeth yng Ngogledd Cymru rhwng 1880 a 1892.

Emrys Roberts, **Monallt: Portread o Fardd-Gwlad.** Cyhoeddiadau Barddas. £3.00

Portread byw a llawn o'r bardd; gan Emrys Roberts, ei fab.

Janet D. Roberts, **O Ben Llŷn i Lle Bu Lleu.** Cyngor Wlad Gwynedd. £1.95

Cyrol o atgofion am Lanllyfni a'r cylch.

D.J. Thomas, **Cerddi'r Coed.** Gwasg Taf. 95c.

Casgliad o gerddi natur i blant.

Menna Elfyn, **Mynd Lawr i'r Nefoedd.** Gwasg Gomer. £2.95

Cyrol o gerddi.

W.J. Gruffydd, **Nodiadau'r Golygydd.** Christopher Davies Cyf. £4.95

Detholiad o nodiadau golygyddol Y Llenor.

Iesu Ddoe a Heddiw; **Llyfr Gwaith.** Cyhoeddiadau Lion

Cynhyrchiadau Lella. 95c.

Llyfr a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r gyfres deledu.

Gilbert Ruddock. **Hyn o Iachawdwriaeth.** Cyhoeddiadau Barddas. £2.50

Casgliad o gerddi.

CHWEDLAU GRIMM

Dau ysgolhaig o'r Almaen oedd Wilhelm a Jacob Grimm. Buont yn ddiwyd yn cofnodi dros 200 o chwedlau gwerin oddi ar lafar eu cymdogion a'u cyfeillion a'u cyhoeddi mewn casgliadau ysgolheigaidd yn 1812 ac 1815. Ar fyr o dro daeth y storïau yn enwog ac yn symbyliad i astudwyr llên gwerin ledled y byd i ddechrau casglu chwedlau yn eu gwledydd eu hunain. Un o'r cyfieithiadau cyntaf i'w gyhoeddi oedd yr un Saesneg yn 1823 a darluniwyd hwnnw yn arbennig ar gyfer plant.

Bellach cyfieithwyd y storïau i dros 70 o ieithoedd, ac addas iawn ar flwyddyn dathlu dau canmlwyddiant geni Wilhelm yw cyhoeddi casgliad Cymraeg o *Chwedlau Grimm*. Ymhlith y 31 o storïau y mae Rapwnsel, Eira Wen Fach, a Hansel a Gretel yn ogystal â rhai llai adnabyddus.

Paratowyd yr addasiad gan Dyddgu Owen a fu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Y mae bellach wedi ymdeol, ac yn byw yn Harlech. Defnyddiodd hi iaith lafar rywiog Maldwyn i adrodd y storïau ac nid yw wedi glastwreiddio dim arnynt, a chadwyd yr elfen greulon sydd yn rhai ohonynt.

Dros y blynyddoedd ysbrydolwyd sawl arlunydd enwog i ddarlunio'r chwedlau. Llwyddodd Jac Jones i greu lluniau cain, crefftus sy'n cyfleu tristwch ac arswyd y storïau ond fe'u hysgafnheir gan hiwmor, a bydd plant wrth eu bodd yn darganfod y "cymeriadau" sydd ynghudd yn llawer o'r lluniau. Ar gyfer pob stori mae llun bychan ar ei dechrau a llun llawn tudalen, oll yn profi fod lluniau du a gwyn lawn mor effeithlon at y diben hwn â rhai lliw. Jac Jones hefyd a gynlluniodd y gyfrol. Ym Môn y mae ef yn byw ac yn gweithio fel arlunydd ar ei liwt ei hun.

Cyhoeddwyd y llyfr mewn argraffiad clawr caled a chlawr meddal ar 13 Mawrth 1986, ac fe'u lansiwyd yn Theatr Ardudwy, Harlech. Roedd y lluniau gwreiddiol yn cael eu harddangos



yno ac yr oeddynt ar werth y noson honno am £75 yr un, wedi eu fframio. Mae'r artist am gyfrannu'r holl elw tuag at Apêl Urdd Gobaith Cymru.

Comisiynwyd y testun a'r lluniau gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chyhoeddir y llyfr, gyda chymorth y Cyngor, gan D. Brown a'i Feibion. **Chwedlau Grimm:** Pris clawr caled £9.95; Clawr lliwa £5.95. Oedran darllen 9 oed ymlaen.

TALWRN Y BEIRDD

LLANRUG

V

BRO ALAW

Gwesty'r Foelas,

Llanrug

Nos Fawrth, Ebrill 22
am 7.30

ARWYDD O'R AMSERAU



Parc Newydd, rhwng Waunfawr a Rhosgadfan, ac ar gyrion Bro'r Eco.

RHOWCH GYMORTH I'R LLYFRGELL

Annwyl Olygydd,

Ddechrau Ebrill bydd nifer o bobl ifanc yn cael eu cyflogi ar gynlluniau gwaith dros dro yn y Llyfrgell Sir o dan gynllun Gwaith Cymuned a drefnir gan y Cyngor Sir fel asiantaeth i'r MSC.

Ar un cynllun cesglir gwybodaeth am bob math o gymdeithasau a mudiadau; megis enw a chyfeiriad ysgrifennydd y gymdeithas, nod y gymdeithas. Bydd y wybodaeth a gesglir yn ddefnyddiol iawn i ateb cwestiynau a geir yn aml yn ein Llyfrgelloedd e.e. A oes Clwb Gwyddbwyll yn agos i ryw bentref, neu pa gymdeithasau sydd i'w cael yn y lle a'r lle?

Bydd tîm arall yn mynd ati i greu casgliad benthg o sleidiau am y Sir. Bydd diddordeb gennym i gael sleidiau yn dangos adeiladau pwysig, personau enwog, cofgolofnau, placiau yn cofnodi digwyddiadau, lluniau yn dangos pobl wrth eu gwaith megis ffermwyr, chwarelwyr, siopwyr ac ati. Yn wir unrhyw luniau o ddigwyddiadau o fewn y Sir.

Trwy golofnau eich papur hoffwn apelio at y darlennydd i ymateb drwy ddanfod gwybodaeth am ei glwb neu fudiad neu rodidi benthg i ni hen luniau neu sleidiau fel y gallwn wneud copi ohonynt. Bydd ymateb da nid yn unig yn gymorth i ni i roi gwasanaeth llawnach yn y dyfodol ond yn gefnogaeth a chalondid i'r tîm o bobol ifanc fydd yn gweithio ar y ddau gynllun.

Cysylltwch â Llyfrgell y Sir yn Swyddfa'r Sir, Caernarfon neu yn Ffordd Pafiliwn, Caernarfon.

Yr eiddoch yn gywir,

J.M. Griffiths

Llyfrgellydd y Sir

PLYGU'R ECO

Plygir yr Eco nesaf nos lau, Mai 1af yn y Ganolfan, Waunfawr am 6.00pm.



Glywsoch chi hanes y ferch ddeugain oed a wariodd bron i ddwy fil o bunnau am bythefnos o wyliau yn China? Oherwydd diffyg lle, bu'n rhaid i'r ferch (sengl!) rannu gwely dwbl â dyn: a dyn a'r gwaed yn llifo'n boeth yn ei wythiennau! Aeth y ferch â'r cwmni trefnu gwyliau i'r llys gan hawlio nad oeddynt wedi cadw at y cytundeb gwreiddiol. Adroddodd iddi dreulio un ar ddeg o nosweithiau di-gwsg oherwydd fod y dyn yn ceisio talu gormod o sylw iddi. Cafodd iawndal o £580. Am rhyw reswm, ni chafodd y cwmni trefnu gwyliau ei enwi yn y llys o gwbl.

OND mae Draenog yn gwybod

Felly, chwi holl ferched sengl bro 'Eco'r Wyddfa', os ydych chi eisiau pythefnos o wyliau di-gwsg efo dyn yn China, ffoniwch Draenog.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

* Gwasanaeth 7 diwnod

* O ddrws i ddrws

* Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID


PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS:

1. Mae'r braster yn Siam (4)
7. Praidd (6)
8. Ciwpid :4;
10. Tiwn (3)
11. Byd a chur yn troi i dwyllo (7)
12. Afon ym Morgannwg (3)
13. Tref yn ne Sweden (5)
17. Dau ddiwrnod yn ôl (5)
19. Gwyn ap ... (3)
21. O fudd i'r iechyd (7)
22. Cysylltiad â 16 i lawr?
Mae'r anifail yn swinio felly (3)
23. Dyma a ddywed côr o fleiddiaid! (4)
25. Llinyn cotwm, neu wllân (6)
26. O'r weddi daw'r tramorwr (4)

I LAWR:

1. Drama fer (5)
2. Eneinio (3)
3. Difater (6)
4. Sbiwch (7)
5. Tolli dau a'u hanfon o'r wlad (7)
6. Rhyfygu (6)
9. Hoe (4)
14. a 24. Amser yr epillog (2,5,3)
15. Ffermwr moch (7)
16. Gêm Doug Mountjoy (6)
17. Yn barod (6)
18. Mae'n pylu yng nghanol dy luniau (4)
20. Ynys ... (5)
24. Gweler 14

PLANTA

Ar Fawrth 11, 1581 ym mhlwyf Tregaian, Môn, claddwyd William ap Howell ap David ap Yerwerth yn 105 mlwydd oed. Bu'n briod deirgwaith. O'i wraig gyntaf, Elen ferch William cafodd 22 o blant; o'i ail wraig, Katherine ferch Richard cafodd 10 o blant, ac o'i drydedd wraig, Ellin uch William cafodd 4 o blant. Cafodd saith o blant ychwanegol hefyd oddi wrth ddwy o ferched eraill. Roedd ei fab hynaf, Griffith ap William yn 84 mlwydd oed, a'i fab ieuengaf, Griffith ap William (arall!) yn ddwy oed. Roedd 80 o bobl a phlant plwyf Tregaian yn blant, yn wyrion neu'n or-wyrion iddo, a dywedir fod 300 o bobl yn ei angladd oedd yn hanu ohono!

Cyfrif y llythrennau canlynol fel UN llythrennau: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

Anfonwch eich cynigion i **Twrog Jones, 23 Glangfynnon, Llanrug.**

Atebion Croesair Mawrth

AR DRAWS: 1. Crafanc, 5. Cegin, 8. Llewylg, 9. Ehediad, 10. Digofaint, 12. lâl, 13. Croesi, 14. Ehedeg, 17. Doe, 18. Clodforwn, 20. Eitemau, 21. Newid, 23. Dirwy, 24. Oraclau.

I LAWR: 1. Colled, 2. Acw, 3. Atgofus, 4. Coelio, 5. Crefft, 5. Geiriadur, 7. Nadolig, 11. Gloddestwr, 13. Cydweld, 16. Moduro, 18. Cymry, 19. Nadau, 22. Wil.

Drwg gennym na chyhoeddwyd cliw ar gyfer 13. Rhoddwyd ystyriaeth i bob ymdrech - heb gyfrif y rhan hwnnw o'r Croesair - Gol.)

Enillydd Croesair Mawrth:
Mrs J. Hughes, Dolfor, Pistyll, Pwllheli.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

Dyddiadur y Mis

EBRILL

Mercher 2, Cwm-y-glo: Clwb y Mamau

Iau 3, Llanberis: Y Cwmni Drama yn perfformio 'Tywydd Mawr' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

Waunfawr: Sefydliad y Merched - Sgwrs ac Arddangosiad o waith lledr gan Miss Gillian Smith, Pwllheli.

Gwener 4, Llanberis: Te yr Henoed. Disgo yn y Ganolfan am 6.30 pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i gosgordd.

Llun 7, Deiniolen: Sefydliad y Merched - Sleidiau gan Mrs Betty Marshall.

Llanrug: Pwyllgor y Carnifal.

Llanberis: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth 8, Llanrug: Merched y Wawr - Cwis a Chyfarfod Blynnyddol.

Deiniolen: Clwb Elidir.

Mercher 9, Llanrug: Cangen Plaid Cymru - Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Agorir gan Maureen Rhys. Croeso cynnes i bawb.

Bethel: Merched y Wawr.

Gwener 18, Llanberis: Te yr Henoed. Bingo a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cronfa'r Ambiwylans.

Llun 21, Llanberis: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth 22, Deiniolen: Clwb Elidir.

Iau 24, Llanberis: Sefydliad y Merched.

Gwener 25, Penisarwaun: Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys.

Sadwrn 26, Waunfawr: Bore Coffi rhwng 10 a 12 o'r gloch yn y Ganolfan. Yr elw at gronfa ganolog yr Urdd.

Mercher 30, Deiniolen: Plaid Cymru - Noson yng nghwmni Cangen Rhiwlas yn y Ganolfan am 7.00.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mai 2: Noson Goffi yn Neuadd yr Ysgol, Deiniolen am 7.00. Yr elw at Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi.

Mai 7: Canghennau Plaid Cymru Llanrug a Waunfawr - Cwis ym Mryn Eirian, Waunfawr.

Mai 15: Sioe Gwaith Llaw Sefydliad y Merched yn 'Feed My Lambs' Caernarfon am 7.00.

Mai 27-31: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Ogwen a'r Cylch ym Methesda.

**COFIWCH AM
GYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL ECO'R
WYDDFA yn Neuadd
Canolfan Gwaun Gynfi,
Deiniolen**

**Nos Wener, Ebrill 4 am 7 o'r
gloch.**

- os gwelwch yn dda

YN EISIAU

Rhywun i lunio Croesair yr Eco.

Mae'n amlwg o'ch ymateb bob mis fod gan amryw ohonoch ddiddordeb mewn ateb croeseiriau. Ond beth am eu ffurfio? Cysylltwch â Twrog Jones, 23 Glangfynnon os oes gennych ddiddordeb.

TALENT IAU

Os ydych chi yn gallu canu, dawnsio, actio neu adrodd darn digri ...

Os oes gennych chi hobi anghyffredin neu gasgliadau diddorol ...

Os ydych chi rhwng 8 a 17 oed ...

Os hoffech chi ymddangos ar S4C ar y gyfres 'talent iau' ...

Os ydych yn gwybod am berson ifanc talentog ...

Cysylltwch â ni ar frys drwy ffonio Caerdydd (0222) 590135

neu

Ysgrifennu at
'Talent iau'
HTV Cymru
Y Ganolfan Deledu
Caerdydd
CF5 6XJ

Byddwn yn cynnal cyfweiliadau yn y Gogledd, Dwyrain, Gorllewin a'r De yn ystod mis Ebrill 1986



CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

Gyda dim ond pedair gêm yn weddill cyn diwedd y tymor, dim ond dau bwynt sydd rhwng Gleision Llanrug a'r safle cyntaf. Bydd y gemau diwethaf hyn yn dyngedfennol iddynt. Yn yr ail adran, Llanrug sydd eto ar y blaen, gyda'r Cochion yn dal eu gafael yn y safle cyntaf, ac angen ennill ychydig o bwyntiau i wneud y bencampwriaeth yn ddiogel. Mae gweddill timau'r fro yn glos iawn i'w gilydd yn hanner uchaf y gynghrair.

CANLYNIADAU MIS MAWRTH ADRAN A

Gleision Llanrug
4-2 Ceidwadwyr C'fon Duon
4-2 Duon Porthaethwy
2-4 Crosville C'fon Duon
4-2 Duon Nantlle
Duon Deiniolen
2-4 Duon Nantlle
3-3 Ceidwadwyr C'fon Duon
1-5 Duon Porthaethwy
3-3 Crosville C'fon Duon

ADRAN B

Cochion Llanrug
6-0 Llanberis
3-3 Duon Bethel
5-1 Cochion Bethesda
4-2 Nantlle Gwyrdd
Gleision Deiniolen
3-3 Nantlle Gwyrdd
3-3 Llanberis
4-2 Duon Bethel

1-5 Cochion Bethesda
Cochion Deiniolen
2-4 Nantlle Brown
5-1 Duon Llanfair P.G.
3-3 Gleision Bethel
5-1 Duon Bethesda
Duon Bethel
4-2 Cymdeithasol Bangor Glas
3-3 Cochion Llanrug
2-4 Gleision Deiniolen
3-3 Ceidwadwyr Felinheli Gleision
Gleision Bethel
5-1 Ceidwadwyr Bangor Gleision
3-3 Cochion Marbryn
3-3 Cochion Deiniolen
3-3 Cochion Groeslon
Llanberis
0-6 Cochion Llanrug
3-3 Gleision Deiniolen
4-2 Ceidwadwyr Felinheli Gleision
3-3 Cymdeithasol Bangor Gleision

Y GYNGHRAIR

ADRAN A

	Ch	En	Cyf	Coll	O	BI	Yn	Er	+/-	Pt
Glas Llanrug	24	19	1	4	96	48	+48	39		
Du Deiniolen	24	10	5	9	73	71	+2	25		

ADRAN B

Coch Llanrug	26	18	7	1	110	46	+64	43		
Du Llanberis	26	12	7	7	86	70	+16	31		
Coch Deiniolen	26	11	8	7	83	72	+11	30		
Glas Deiniolen	26	10	8	10	79	77	+2	28		
Duon Bethel	26	10	7	9	83	73	+10	27		
Gleision Bethel	26	11	5	10	78	78	-	27		

BLWYDDYN O REDEG

MAE'R gwanwyn ar ei ffordd! Ym myd y rhedwyr, mae'r gwanwyn ar gychwyn pan ddaw tymor y rhedeg traws-gwlad i ben. Dyma'r cyfnod, gyda'r dydd yn ymestyn, pryd y daw mwy a mwy o redwyr allan o'u gaeafol gwsg i fentro dangos eu coesau gwynion ar hyd ffyrdd a ffriddoedd yr ardal. Ond bu llawer o redwyr bro'r 'Eco' yn herio rhewynt y gaeaf a aeth heibio i ennill clod iddynt eu hunain yn y gwahanol rاس traws-gwlad a gynhelir ar ffurf cynghrair yng Ngogledd Cymru.

Dau redwr o Lanrug a ddaeth i'r brig yn y gynghrair y gaeaf hwn, gyda Paul Grant o Bontrhythallt yn gyntaf i fechgyn dan 15 oed, a Mathew Ward yn drydydd yn yr adran i fechgyn dan 18 oed. Roedd ras bob mis o Hydrfey y llynedd hyd Fawrth eleni, a rhaid oedd cystadlu mewn o leiaf bedair ras. Y cyfartaledd gorau dros yr holl rاس oedd yn cyfrif tuag at y canlyniadau terfynol.

Yn ystod mis Mawrth dechreuodd y rاس ffordd. Ras Cwm Silyn, Dyffryn Nantlle oedd y gyntaf ohonynt, a daeth rhedwyr bro'r 'Eco' â nifer o wobrau yn ôl oddi yno. Yn y ras i enethod rhwng 12 a 13 oed daeth Linda Prydderch o Lanberis yn gyntaf, a Julie Bayliss yn ail. Yn yr un ras i fechgyn o'r un oed, daeth Paul Prydderch yn gyntaf. Adrian Owen o'r Waunfawr oedd y cyntaf yn y ras i fechgyn dan 16 oed.

Dyma rai o'r rاس sydd i'w cynnal yn ystod y mis nesaf:

Ebrill 6ed: Marathon a hanner marathon Canolbarth Cymru, Y Bermo.

Ebrill 26ain: Ras 10 milltir Gogledd Cymru, Wrecsam.

Rاس Mynydd:

Ebrill 5ed: Ras y Moelwyn,

Ebrill 12ed: Ras Trefriw

Ebrill 16eg: Ras Llyn y Parc, Betws-y-coed.

Byddwn yn ceisio rhoi adroddiadau ar rai o'r rاس hyn yn yr 'Eco' yn ystod y misoedd nesaf, ac ar yr un pryd yn rhestru'r gwahanol rاس ffordd a rاس mynydd am y mis dilynol.

Glywsoch chi hanes yr hogiau o Ddeiniolen a fentrodd yr holl ffordd i Gaerdydd i weld y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a Ffrainc? Yn anffodus, doedd ganddyn nhw ddim tocynnau i fynd i'r stadiwm, a bu'n rhaid iddynt dreulio'r pŵer yn gwylio'r gêm ar set deledu yn ffenest siop Curry's. Tybed a wyddan nhw fod yna siopau Curry's ym Mangor a Chaernarfon?

ANTUR (BYSGOTA) WAUNFAWR



Yn ddiweddar bu criw o Aelwyd Waunfawr ac Antur Waunfawr yn pysgota yn Llyn Tanygrisiau, ger Blaenau Ffestiniog. Roedd hyn yn ystod y tywydd oer a gawsom ac ar ôl cyrraedd y llyn roedd yn ymddangos mai pysgota fel esgimos fyddai raid i'r hogiau gan fod ei dri chwarter wedi rhewi'n gorcyn!

Cafodd pawb le i bysgota fodd bynnag a setlo i lawr i daflu pryfed genwair, plu, cynrhon a meps i geisio temtio'r brithyll swil gan fod clamp o gwpan hardd i'r enillydd. Ddaliodd neb ddim, ond fe gafodd Paul andros o blwc! Gobeithio y bydd brawd mawr y pysgodyn hwnnw'n aros pan fydd y criw yn mynd i bysgota i Llyn Alaw y mis nesaf! Mae'r cwpan yn cael ei sgleinio'n rheolaidd ar gyfer daliwr y pysgodyn mwyaf.

PÊL-DROED

CYSTADLEUAETH Y PEDAIR CYNGHRAIR

Ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar Ebrill 6 bydd Cynghrair Pêl-droed Gwyrfaï a'r Cylch yn westeion i gystadleuaeth pêl-droed Tlws 'Anglo-Welsh'. Sefydlwyd y gystadleuaeth hon ddwy flynedd yn ôl, rhwng Cynghreiriau pêl-droed i fechgyn dan 16 oed, dan 14 oed a than 12 oed. Mae pedair Cynghrair yn cystadlu; dwy o Loegr (Cynghrair Caer a'r cylch a Chynghrair Mansfield a'r cylch), a dwy o Ogledd Cymru (Cynghrair Wrecsam a Chynghrair Gwyrfaï). Cynghrair Gwyrfaï yw'r lleiaf ohonynt, ac felly, tasg nid bychan oedd iddynt fod yn gyfrifol am gynnal y gystadleuaeth hon eleni. Bydd nifer o fechgyn o fro'r 'Eco' yn cynrychioli tri thîm y Cynghrair, a gobeithiwn roi adroddiad llawn am y gystadleuaeth yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, gwneir apêl ar i rieni'r bechgyn sy'n chwarae roi pob cefnogaeth i'r timau yn y gystadleuaeth hon.

CYNGHRAIR PÊL-DROED GWYRFAI

Dan 12 oed

Ddiwedd mis Mawrth cychwynnodd Cynghrair pêl-droed Gwyrfaï i fechgyn dan 12 oed. Mae tri thîm o'r fro yn cystadlu ynddi, sef Deiniolen, Llanberis a Llanrug. Byddant yn chwarae yn yr un adran â'i gilydd, ac yn cadw cwmpeini iddynt bydd tîm o Fethesda. Yn yr adran arall bydd timau o Gaernarfon, Bontnewydd ac ardal Penygroes yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Ar ddiwedd y tymor bydd y ddau dîm ar frig y ddwy adran yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y Cwpan. Dyma'r tro cyntaf i Cynghrair pêl-droed i fechgyn dan

12 oed gael ei chynnal gan Cynghrair Gwyrfaï, a gobeithir y daw mwy o dimau i ymuno â hi, erbyn y tymor nesaf.

Bu nifer o'r timau hyn yn chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn ei gilydd yn ystod yr wythnosau a aeth heibio, a dangosodd amryw o'r chwaraewyr gryn addewid.

Cynhaliwyd y gêm gynghrair gyntaf o'r cymor rhwng Llanberis a Llanrug nos Wener, Mawrth 21 ar Gae'r Ddôl, Llanberis, a Llanrug a ddaeth yn fuddugol o 3 gôl i 1. Mwy o hanes hynt a helynt y timau dan 12 oed yn y rhifyn nesaf.



Clwb
i'r
Campau

Sefydlwyd CIC yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Llambled 1984 i hybu pob math o chwaraeon yng Nghymru drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn wir, dyna un o brif amcanion y gymdeithas: 'gwarchod yr iaith yn holl weithgareddau'r gymdeithas a mynnu lle teilwng iddi ym myd y campau yng Nghymru'.

Mae Ymgyrch Aelodaeth 1986 ymlaen ar hyn o bryd, a bydd CIC yn

cynnal nifer o weithgareddau ledled Cymru i ddwyn sylw'r cyhoedd at amcanion y gymdeithas. Gobeithiwn roi mwy o sylw i'r gymdeithas yn ystod y misoedd sydd i ddod, ond os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno neu am wybod mwy am CIC, yna cysyllter â Royston James, Cilmeri, 10 Maesgwyn Drive, Pontarddulais. SA4 1SL.